

Adroddiad ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

Chwefror 2025



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDCC

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
X: **[@SeneddDCC](https://twitter.com/SeneddDCC)**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Mae'r ddelwedd ar y clawr yn defnyddio cynnwys sydd ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0: **www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/**

Adroddiad ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

Chwefror 2025



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.

Ceir ei gylch gwaith yn www.senedd.cymru/SeneddDCC

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Alun Davies AS
Llafur Cymru



Laura Anne Jones AS
Ceidwadwyr Cymreig



Adam Price AS
Plaid Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y Bil:



Natasha Asghar AS
Ceidwadwyr Cymreig

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	5
Y Bil.....	5
Ein dull o drafod.....	5
Trafodaethau'r Pwyllgor Cyllid.....	6
2. Cymhwysedd deddfwriaethol.....	8
Y goblygiadau o ran hawliau dynol.....	9
Ein barn ni.....	10
3. Egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth	11
Y cefndir.....	11
Y trefniadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru	11
Y gofynion ar gyfer cyhoeddi Deddfau Senedd Cymru ac offerynnau statudol Cymreig, ac is-ddeddfwriaeth arall nad yw'n cael ei gwneud drwy offeryn statudol.....	12
Hygyrchedd cyfraith Cymru.....	14
Egwyddorion cyffredinol y Bil.....	16
Yr angen am y Bil.....	20
Datblygu'r Bil ac ymgynghori.....	23
Pwerau dirprwyedig a'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth.....	27
Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol.....	28
Ein barn ni.....	29
4. Y weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru.....	31
Gweithdrefnau craffu'r Senedd.....	31

Y cyfleoedd y gall y Bil eu darparu i godeiddio gweithdrefnau craffu eraill, neu i ddarparu ar gyfer gweithdrefnau craffu newydd.....	37
Dim gofyniad i wneud gorchmynion traffig ffyrdd drwy offeryn statudol Cymreig.....	43
Ein barn ni.....	44
5. Cyhoeddi deddfwriaeth Cymru	48
Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.....	48
Goblygiadau ariannol.....	54
Fformat printiedig dwy golofn ar gyfer offerynnau statudol	55
Ein barn ni.....	56
6. Diddymu Deddfwriaeth Cymru	59
Diddymu a diwygio darpariaethau mewn cyfraith cynllunio	59
Diddymu Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011	60
Diddymiadau arfaethedig nad ydynt yn cael eu cyflwyno gan y Bil fel y'i cyflwynwyd	63
Adrannau 53 i 56 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.....	63
Adran 28 o Ddeddf Tiroedd Comin 1876	67
Ein barn ni.....	68
Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....	69
Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	70

1. Cyflwyniad

Y Bil

1. Ar 21 Hydref 2024, cyflwynodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, Julie James AS (yr Aelod sy'n gyfrifol), y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) (y Bil) i'r Senedd.¹
2. Ar yr un diwrnod, gosododd yr Aelod sy'n gyfrifol Femorandwm Esboniadol (y Memorandwm) i gyd-fynd â'r Bil, sy'n cynnwys yr asesiad effaith rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol², a chyhoeddodd ddatganiad ysgrifenedig³. Ar 22 Hydref 2024, gwnaeth ddatganiad llafar ynghylch y Bil hefyd.⁴
3. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) i drafod ei egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt erbyn y dyddiad cau ar 14 Chwefror 2025.⁵

Ein dull o drafod

4. Ar 21 Hydref 2024⁶, gwnaethom gytuno i ystyried:
 - egwyddorion cyffredinol y Bil ac a oes angen deddfwriaeth er mwyn cyflawni'r amcanion polisi a nodwyd;
 - unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil, ac a yw'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt;
 - a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
 - asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol ac effeithiau eraill y Bil;

¹ Mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, ynghyd â gwybodaeth am ei hynt drwy'r Senedd, ar gael ar dudalen we'r Bil.

² Llywodraeth Cymru, Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Hydref 2024

³ Llywodraeth Cymru, Datganiad ysgrifenedig: Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), 21 Hydref 2024

⁴ Y Cyfarfod Llawn, 22 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion, [131] i [176]

⁵ Y Pwyllgor Busnes: Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), Hydref 2024

⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Hydref 2024, Cofnodion, eitem 12

- pa mor briodol yw'r pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth;
- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw darpariaethau'r Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth;
- unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd y ddeddfwriaeth; ac
- unrhyw fater arall sy'n ymwneud â goblygiadau cyfansoddiadol neu oblygiadau eraill y Bil.⁷

5. Ar 25 Hydref 2024, lanswyd ymgynghoriad i helpu i lywio ein trafodaethau. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 6 Rhagfyr 2024. Trafodwyd y pedwar ymateb a ddaeth i law yn ein cyfarfod ar 13 Ionawr 2025.⁸

6. Clywsom dystiolaeth lafar gan yr Aelod sy'n gyfrifol ar 4 Tachwedd 2024⁹ ac ar 13 Ionawr 2025¹⁰.

7. Clywsom dystiolaeth lafar hefyd gan: Saul Nassé, Prif Weithredwr a Cheidwad yr Archifau Gwladol ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin ar 18 Tachwedd 2024¹¹; a chan Dr Ruth Fox o Gymdeithas Hansard a Dr Adam Tucker o Brifysgol Lerpwl ar 6 Ionawr 2025¹².

8. Yn dilyn ein cais am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r Bil¹³, cawsom hefyd ohebiaeth oddi wrth yr Aelod sy'n gyfrifol ar 29 Tachwedd 2024.¹⁴

Trafodaethau'r Pwyllgor Cyllid

9. Trafododd y Pwyllgor Cyllid oblygiadau ariannol y Bil ar 23 Hydref 2024¹⁵ ac wedi hynny gofynnodd am ragor o wybodaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y

⁷ Mae rhai o'r materion hyn yn rhai y byddai'r Pwyllgor wedi'u hystyried fel arall pe na bai'r Bil wedi'i gyfeirio ato er mwyn craffu ar ei egwyddorion cyffredinol.

⁸ Mae Atodiad 2 yn rhestru'r rhai a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig i'r [ymgynghoriad](#).

⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion](#)

¹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [13 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion](#)

¹¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion](#)

¹² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [6 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion](#)

¹³ [Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 15 Tachwedd 2024](#)

¹⁴ [Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 29 Tachwedd 2024](#)

¹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, [23 Hydref 2024, Cofnodion](#), eitem 7

costau a ddarparwyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol.¹⁶ Ar 27 Tachwedd 2024, trafododd y Pwyllgor Cyllid ymateb yr Aelod sy'n gyfrifol, dyddiedig 19 Tachwedd 2024¹⁷, a chytunodd i beidio â chymryd camau pellach.¹⁸

¹⁶ Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 5 Tachwedd 2024

¹⁷ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 19 Tachwedd 2024

¹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, 27 Tachwedd 2024, Cofnodion, eitem 8

2. Cymhwysedd deddfwriaethol

10. Er mwyn i Fil – os caiff ei basio fel Deddf gan Senedd Cymru – fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, rhaid iddo beidio â chynnwys darpariaeth sy'n methu â bodloni unrhyw un neu ragor o'r profion a nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

11. Un o'r profion hyn yw na chaiff darpariaeth dorri unrhyw un neu ragor o'r cyfyngiadau yn Atodlen 7B i *Ddeddf 2006*.¹⁹ Un o'r cyfyngiadau hynny yw na chaiff darpariaeth roi na gosod swyddogaeth ar un o Weinidogion y Goron neu ar un o adrannau Llywodraeth y DU, nac addasu na dileu un o'i swyddogaethau, oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol priodol yn cydsynio i'r ddarpariaeth.²⁰

12. Yn y Memorandwm, dywed yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai darpariaethau'r Bil fel y'i cyflwynwyd, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.²¹ Fodd bynnag, dywed hefyd fod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil sy'n effeithio ar Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin.²²

13. Ym marn y Llywydd, byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r Llywydd hefyd yn dweud:

“Ni fyddai adran 3 o'r Bil, sy'n rhoi swyddogaethau ar Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Mae hyn oherwydd bod angen cydsyniad Llywodraeth y DU er mwyn i'r adran fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, ac ni chafwyd y cydsyniad angenrheidiol hwnnw ar hyn o bryd.

Ni fyddai paragraff 1 o Atodlen 3 i'r Bil, sy'n addasu swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Mae hyn oherwydd bod angen cydsyniad Llywodraeth y DU er mwyn i'r paragraff fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, ac ni chafwyd y cydsyniad angenrheidiol hwnnw ar hyn o bryd.”²³

¹⁹ Gweler adran 108A(2)(d) o *Ddeddf 2006*.

²⁰ Gweler paragraff 11 o *Atodlen 7B i Ddeddf 2006*.

²¹ Y Memorandwm, tudalen 5

²² Y Memorandwm, paragraff 47

²³ Senedd Cymru, *Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol: Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)*, 21 Hydref 2024

14. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym ym mis Tachwedd 2024 fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y cydsyniadau perthnasol, ac er nad oedd y cydsyniadau hynny wedi dod i law eto, nad oedd yn rhagweld y byddai Llywodraeth y DU yn codi unrhyw broblemau.²⁴

15. Ar 13 Ionawr 2025, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym nad oedd y cydsyniadau hyn yn dal wedi dod i law, er bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl eu cael cyn diwedd Cyfnod 1 taith y Bil drwy'r Senedd.²⁵

Y goblygiadau o ran hawliau dynol

16. Un arall o'r profion a nodir yn adran 108A o Ddeddf 2006 yw na chaiff darpariaeth fod yn anghydnaws â'r hawliau a warchodir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (hawliau'r Confensiwn).²⁶

17. Nid yw'r Memorandwm yn cyfeirio at effaith y Bil ar hawliau dynol. Felly, gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol, mewn gohebiaeth, nodi asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau'r Bil o ran hawliau dynol, gan roi sylw arbennig i'r darpariaethau yn adran 2²⁷ o'r Bil. Yn ei hymateb, ysgrifennodd:

"Mae'r Llywodraeth wedi cynnal asesiad o oblygiadau'r Bil hwn o ran hawliau dynol ac rwy'n fodlon fod ei ddarpariaethau yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn. Yn wir, rwy'n credu bod y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau dynol ac ar reol y gyfraith, am ei fod yn rhoi'r trefniadau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth a chyhoeddi deddfwriaeth ar sail gyfreithiol fwy eglur ac yn cael gwared ar annibendod diangen o gyfraith Cymru.

Nid yw'r Llywodraeth o'r farn fod adran 2 yn codi unrhyw faterion o ran cydnawsedd â hawliau'r Confensiwn. Mewn unrhyw achos pan fo gorchymyn traffig ffyrdd yn ysgogi hawliau'r Confensiwn, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymddwyn mewn modd sy'n gydnaws â'r hawliau hynny wrth wneud a gorfodi'r gorchymyn. Ceir gweithdrefnau statudol ar gyfer gwneud a rhoi cyhoeddusrwydd i orchmynion traffig

²⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [178]

²⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [8]

²⁶ Gweler adran [108A\(2\)\(e\) o Ddeddf 2006](#).

²⁷ Mae adran 2 yn diwygio *Deddf Priffyrdd 1980* a *Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984* fel na fydd yn ofynnol mwyach i orchmynion traffig ffyrdd penodol gael eu gwneud drwy offeryn statudol Cymreig (neu offeryn statudol).

ffyrdd hefyd, er enghraifft, yn OS 1990/1656 ac OS 1992/1251 a wnaed o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; a bydd yr adran 37Z newydd o Ddeddf 2019 (a fewnosodir gan adran 3 o'r Bil) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r holl is-ddeddfwriaeth Gymreig a wneir ganddynt nad yw'n ofynnol iddi gael eu gwneud ar ffurf offeryn statudol Gymreig.”²⁸

Ein barn ni

18. Nodwn farn yr Aelod sy'n gyfrifol – a barn y Llywydd – fod darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac eithrio'r darpariaethau hynny yn adran 3 a pharagraff 1 o Atodlen 3 y mae angen cydsyniad un o Weinidogion y Goron ar eu cyfer.

19. Nodwn hefyd nad oedd y cydsyniadau hynny wedi dod i law eto ar 13 Ionawr 2025, er bod yr Aelod sy'n gyfrifol wedi dweud bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl eu cael cyn diwedd Cyfnod 1 y Bil, a thynnwn sylw'r Senedd at hynny.

20. Rydym yn cydnabod y wybodaeth a gawsom gan yr Aelod sy'n gyfrifol ynghylch asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y Bil ar hawliau dynol; gwybodaeth a oedd yn ddefnyddiol inni yn ein trafodaethau. Fodd bynnag, credwn y byddai wedi bod yn fwy defnyddiol pe bai'r wybodaeth honno wedi'i chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol, a chredwn hefyd – fel yr ydym eisoes wedi'i nodi – y dylid mabwysiadu'r dull hwn ar gyfer pob Bil a gyflwynir i'r Senedd.

Casgliad 1. Fel mater o arfer da, dylai'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil bob amser gynnwys sylwadau ar yr ystyriaeth a roddwyd i ymwneud darpariaethau'r Bil â hawliau dynol.

²⁸ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 29 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 2

3. Egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth

21. Fel y nodir yn y Memorandwm, diben y Bil yw:

- tynnu ynghyd a ffurfioli:
 - y trefniadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru (fel y darperir gan Ran 1 o'r Bil); a
 - y gofynion ar gyfer cyhoeddi Deddfau Senedd Cymru ac offerynnau statudol Cymreig, ac is-ddeddfwriaeth arall nas gwneir drwy offeryn statudol (fel y darperir gan Ran 2).
- gwella hygyrchedd cyfraith Cymru drwy:
 - ddiddymu, diwygio a datgymhwyso fel arall o ran Cymru ddarpariaethau a deddfiadau nad ydynt o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd mwyach (fel y darperir gan Ran 3); a
 - gwneud mân ddiwygiadau i *Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*²⁹ (Deddf 2019) (fel y darperir gan Ran 4).

Y cefndir

Y trefniadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru

22. Cyfraith a wneir fel arfer gan Weinidogion, o dan bwerau a roddir iddynt gan ddeddfwriaeth sylfaenol, yw is-ddeddfwriaeth. Yng Nghymru, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio pwerau a roddir iddynt mewn deddfwriaeth sylfaenol megis Deddfau Senedd Cymru, Mesurau'r Cynulliad³⁰ a Deddfau Senedd y DU.

23. Mae'r gofynion sy'n ymwneud â chraffu ar offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru, a chyhoeddi'r offerynnau hynny, wedi'u nodi yn *Neddf Offerynnau Statudol 1946*³¹ (Deddf 1946) a Rheoliadau Offerynnau Statudol 1947³² sy'n gysylltiedig â hi. Mae Deddf 1946 yn gymwys i Weinidogion Cymru, ac

²⁹ Ar gael ar: www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2019/4/contents/welsh

³⁰ Rhwng 2007 a 2011, o dan [Ran 3 o Ddeddf 2006](#), ni allai Cynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i gelwid bryd hynny) ond pasio Mesurau.

³¹ Ar gael ar: www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/Geo6/9-10/36/contents

³² Ar gael ar: www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1948/1/contents

offerynnau a wneir ganddynt, yn rhinwedd adran 11A o'r Ddeddf honno fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf 2006.³³

24. Gan fod arferion ac ymarfer wedi datblygu ers Deddf 1946, erbyn hyn – fel y nodir yn y Memorandwm – defnyddir pedair prif weithdrefn i wneud offerynnau statudol. Darperir y gweithdrefnau hyn yn fanwl gan y deddfiadau sy'n rhoi'r pwerau i wneud offerynnau o'r fath, ac fe'u gelwir yn aml yn anffurfiol:

- y “weithdrefn negyddol ‘gwnaed’”;
- y “weithdrefn gadarnhaol ddrafft”;
- y “weithdrefn gadarnhaol ‘gwnaed’”; a
- lle nad oes gweithdrefn graffu benodedig, “dim gweithdrefn”.³⁴

25. O bryd i'w gilydd, mae Gweinidogion Cymru hefyd yn arfer eu pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ar y cyd neu'n gyfansawdd â Gweinidogion eraill mewn llywodraethau eraill yn y Deyrnas Unedig, a gwneir rhywfaint o is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys o ran Cymru gan Ei Fawrhydi drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

26. Yn ogystal, mae rhai deddfiadau yn nodi gweithdrefnau ar gyfer is-ddeddfwriaeth sydd wedi'u haddasu o'r pedair prif weithdrefn a restrir uchod, er enghraifft i ddarparu ar gyfer amser ychwanegol i'r Senedd graffu ar offeryn, neu i ddarparu dyletswydd i ymgynghori cyn y gellir gosod offeryn. Mae'r mathau hyn yn aml yn cael eu galw'n anffurfiol yn weithdrefnau ‘uwchnegyddol’ neu ‘uwchgadarnhaol’.

27. Ac eithrio mewn amgylchiadau prin pan fo'r deddfiad sy'n rhoi pwerau yn darparu fel arall³⁵, ni all y ddeddfwrfa ddiwygio nac addasu is-ddeddfwriaeth.

Y gofynion ar gyfer cyhoeddi Deddfau Senedd Cymru ac offerynnau statudol Cymreig, ac is-ddeddfwriaeth arall nad yw'n cael ei gwneud drwy offeryn statudol

28. Mae adran 115 o Ddeddf 2006 yn nodi'r broses er mwyn i Ddeddfau Senedd Cymru gael y Cydsyniad Brenhinol. Yn benodol, mae adrannau 115(5) i (5F) yn cyfeirio at y fersiwn “print swyddogol” o Ddeddf gan Senedd Cymru a “chopi ardystiedig” o'r print swyddogol.

³³ Ar gael ar: www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/Geo6/9-10/36/section/11A

³⁴ Mae rhagor o wybodaeth am is-ddeddfwriaeth Cymru ar gael ar [wefan y Senedd](#).

³⁵ Ceir enghreifftiau o ddarpariaeth o'r fath yn [adran 27\(3\) o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004](#), ac yn [adran 1\(2\) o Ddeddf y Cyfrifiad 1920](#).

- 29.** Prif Weithredwr a Cheidwad yr Archifau Gwladol, yn rhinwedd ei swydd fel Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin³⁶, sy'n gyfrifol am gyhoeddi Deddfau Senedd Cymru. Fodd bynnag, nid oes dyletswydd statudol arno i wneud hynny, yn wahanol i Ddeddfau Senedd yr Alban, fel y darperir gan adran 92(1)(a) o *Ddeddf yr Alban 1998*³⁷ ac adran 39(2) o *Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010*³⁸ (Deddf yr Alban 2010).
- 30.** Yn ei adroddiad yn 2015, Deddfu yng Nghymru, argymhellodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i sefydlu Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.³⁹
- 31.** O dan adran 2 o Ddeddf 1946, mae Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin hefyd yn gyfrifol am rifo, argraffu, cyhoeddi ac enwi offerynnau statudol.⁴⁰ Mae adran 1 o Ddeddf 1946 yn darparu diffiniad o offeryn statudol ("statutory instrument") ac mae adran 1(1A) yn darparu bod offeryn o'r fath a wneir gan Weinidogion Cymru hefyd i'w alw'n "statutory instrument".
- 32.** Felly, yn wahanol i offerynnau statudol yr Alban a rheolau statudol Gogledd Iwerddon, nid yw offerynnau statudol Cymreig ("Welsh statutory instruments") wedi'u diffinio yn y gyfraith, a chyfeirir atynt fel offerynnau statudol ("statutory instruments") sy'n rhan o'r hyn a elwir yn anffurfiol yn 'gyfres' ehangach y DU o offerynnau statudol.
- 33.** Mae rhai mathau o is-ddeddfwriaeth nad ydynt yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol, megis canllawiau statudol, codau ymarfer a chyfarwyddydau. Gan nad yw'r mathau hyn o ddeddfwriaeth yn offerynnau statudol, ni chânt eu cyhoeddi gan Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin. Pan wneir y mathau hyn o ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru, cânt eu cyhoeddi fel arfer ar wefan Llywodraeth Cymru.⁴¹

³⁶ Penodir Prif Weithredwr a Cheidwad yr Archifau Gwladol i'r rôl hon gan Ei Fawrhydi drwy Freinlythyrau.

³⁷ Ar gael ar: www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/46/section/92

³⁸ Ar gael ar: www.legislation.gov.uk/cy/asp/2010/10/section/39

³⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pedwerydd Cynulliad), *Deddfu yng Nghymru*, Hydref 2015, argymhelliad 34

⁴⁰ Cyhoeddir offerynnau o'r fath ar wefan yr Archifau Gwladol, www.legislation.gov.uk/cy.

⁴¹ Llywodraeth Cymru, *Cyhoeddiadau*

Hygyrchedd cyfraith Cymru

34. Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith gan *Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965*⁴² (Deddf 1965). Un o'i swyddogaethau, fel y darperir gan adran 3 o Ddeddf 1965, yw parhau i adolygu'r gyfraith:

*"... with a view to its systematic development and reform, including in particular the codification of such law, the elimination of anomalies, the repeal of obsolete and unnecessary enactments, the reduction of the number of separate enactments and generally the simplification and modernisation of the law ..."*⁴³

35. Yn unol ag adrannau 3C a 3D o Ddeddf 1965, fel y'u mewnosodwyd gan *Ddeddf Cymru 2014*⁴⁴, rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad bob blwyddyn ar gynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig, a chânt gytuno ar brotocol⁴⁵ gyda Chomisiwn y Gyfraith ynghylch ei waith o ran materion o'r fath.

36. Yn 2015, cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith brosiect, a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru, i adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru.⁴⁶ Yn ei adroddiad yn 2016, Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru, tynnodd sylw at bwysigrwydd cyfraith hygyrch:

"Mae hygyrchedd yn ganolog i reolaeth y gyfraith. Mae hon yn egwyddor gyfansoddiadol o fewn y Deyrnas Unedig ac yn egwyddor sylfaenol yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd, a gydnabyddir yng nghyfreitheg Llys Hawliau Dynol Ewrop.

Mae pob person yn ddarostyngedig i'r gyfraith, pa un a ydynt yn gwybod beth yw ei gofynion ai peidio, a hyd yn oed pa un a dynnwyd eu sylw at y gofynion hynny ai peidio; daw Deddf Seneddol i rym cyfreithiol "pa un a yw wedi ei chyhoeddi ai peidio". Mae hyn yn dwysáu dyletswydd y llywodraeth i sicrhau, yn unol â rheolaeth y gyfraith, fod deddfwriaeth ar gael i ddinasyddion fel mater o egwyddor."⁴⁷

⁴² Ar gael ar: www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1965/22

⁴³ Ar gael ar: www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1965/22

⁴⁴ Ar gael ar: www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents

⁴⁵ Mae'r protocol diweddaraf, o 2015, ar gael ar [wefan Comisiwn y Gyfraith](http://www.wefan.comisiwn.y.gyfraith).

⁴⁶ Comisiwn y Gyfraith, *Prosiect: Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*

⁴⁷ Comisiwn y Gyfraith, *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru, 2016*, paragraffau 1.14 i 1.15

37. Amlygodd ei adroddiad bryderon am gyflwr hygyrchedd y gyfraith yn gyffredinol, ac yn benodol o ran y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Dywedodd:

“... ychwanegwyd at yr anhygyrchedd gan natur a phroses datganoli. Mae'r setliad datganoli wedi newid o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a oedd yn rhoi pwerau gweithredol yn unig, i gam cyntaf Deddf Llywodraeth Cymru 2006, y gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru basio Mesurau oddi tani, hyd at weithredu Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan roi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â phynciau a restrir yn atodlen 7. ...

Mae deddfau sy'n gymwys yng Nghymru yn cael eu creu yn Senedd y Deyrnas Unedig ac yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd diwygiadau testunol ac anhestunol olynol eu gwneud i ddeddfwriaeth gan Senedd y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r gyfraith ar bynciau datganoledig yn y ddwy wlad yn amrywio'n gynyddol wrth i'w llywodraethau gyflwyno polisïau newydd. Mewn rhai achosion, mae Senedd y Deyrnas Unedig wedi newid y gyfraith yn Lloegr ond nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi newid yr un gyfraith yng Nghymru. ...

Problem arall yw bod pwerau a roddwyd ar wyneb Deddf Seneddol i'r Ysgrifennydd Gwladol neu gorff arall wedi eu trosglwyddo'n amrywiol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i Weinidogion Cymru, ac mewn rhai achosion, i gyrff eraill. ...

Am yr holl resymau hyn, mae'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn arbennig o anodd ei chanfod.”⁴⁸

38. Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Bil Deddfwriaeth (Cymru)⁴⁹, a ddaeth yn Ddeddf 2019. Mae Deddf 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adolygiad, ac mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol lunio rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Cyhoeddwyd rhaglen

⁴⁸ Comisiwn y Gyfraith, Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru, 2016, paragraffau 1.26 i 1.32

⁴⁹ Mae gwybodaeth am ystyriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (fel yr oedd bryd hynny) o'r Bil ar gael ar [dudalennau gwe y Senedd](#).

Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021 i 2026 yn 2021⁵⁰ a chyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig ym mis Ionawr 2024⁵¹.

39. Un o swyddogaethau Comisiwn y Gyfraith, fel y nodir yn adran 3(1) o Ddeddf 1965, yw llunio, o bryd i'w gilydd, ar gais y Gweinidog, raglenni cynhwysfawr i gydgrynhoi ac adolygu cyfraith statud, ac ymgymryd â llunio Biliau drafft yn unol ag unrhyw raglen o'r fath a gymeradwyir gan y Gweinidog. Mae diwygio cyfraith statud yn cynnwys cael gwared ar ddeddfwriaeth sydd wedi darford neu sydd wedi colli unrhyw ddiben modern, ac yn y gorffennol, mae Comisiwn y Gyfraith wedi cyflwyno cynigion ar gyfer diddymu cyfreithiau o'r fath i Lywodraeth y DU, sydd wedyn wedi dod yn ddeddfau cyfraith statud (diddymu).⁵² Fodd bynnag, fel y nodir yn adroddiad blynyddol Comisiwn y Gyfraith ar gyfer 2022-23:

"In recent times, enthusiasm in Government for repeals work has reduced, which in turn makes it difficult for the Commission to allocate resource to this aspect of our work. Nevertheless, we remain committed to repeals work and will continue to consider ways in which we can focus our attention on those areas of law which have the potential to cause genuine confusion."⁵³

Egwyddorion cyffredinol y Bil

40. Yn ei datganiad llafar wrth gyflwyno'r Bil, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"Fel mae teitl y Bil yn ei awgrymu, fe geir tair prif adran i'r Bil. Mae'r gyntaf yn ymwneud â'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru. Mae'r Bil yn ceisio rhesymoli ac, yn y bôn, yn codio gweithdrefnau sydd wedi mynd yn rhy gymhleth. ...

Mae ail Ran y Bil yn moderneiddio'r rheolau ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth Cymru. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cyhoeddi cyfreithiau Cymru yn fratiog ac yn hen ffasiwn. Mae'r darpariaethau presennol ar wasgar dros nifer o ddeddfiadau, rhai ohonyn nhw'n hen iawn a heb eu haddasu yn llawn ar gyfer cyd-destun deddfwriaethol y Gymru gyfoes. Mae darnio fel hyn yn arwain at ddryswch ac aneffeithlonrwydd. ... I fynd i'r

⁵⁰ Llywodraeth Cymru, [Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd 2021 i 2026](#), Medi 2021

⁵¹ Llywodraeth Cymru, [Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026](#), Ionawr 2024

⁵² Comisiwn y Gyfraith, [Diddymu cyfraith statud](#)

⁵³ Comisiwn y Gyfraith, [Adroddiad Blynyddol 2022-23](#), Rhagfyr 2023, tudalen 68

afael â'r materion hyn, mae'r Bil yn sefydlu system fwy cydlynol a phwrpasol ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth Cymru. ...

Yn rhan o'n mentrau ehangach i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, mae'r Bil yn adlewyrchu gwaith y mae'r Llywodraeth wedi bod yn ei wneud ers peth amser hefyd i nodi darpariaethau ar y llyfr statud nad ydyn nhw'n angenrheidiol erbyn hyn. Mae Rhan 3 o'r Bil, felly, yn cyflwyno cyfres o ddiddymiadau i ddarpariaethau nad ydyn nhw o unrhyw ddefnydd neu fudd ymarferol erbyn hyn.

... yn olaf, bydd y Bil yn gwneud rhai mân ddiwygiadau i Ran 2 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Drwy foderneiddio ein fframwaith deddfwriaethol ni, fe allwn ni rymuso eglurder a hygyrchedd cyfraith Cymru, ac fe fydd hynny o fudd i bawb sy'n dibynnu arni hi, yn y pen draw.”⁵⁴

- 41.** Wrth roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, disgrifiodd yr Aelod sy'n gyfrifol ddiben y Bil:

“This is a technical and administrative Bill and it helps develop the elements that underpin Welsh law and help make it more accessible. The purpose is to amend the Legislation (Wales) Act 2019, which is about making and publishing Welsh legislation, and it brings forward a series of repeals to provisions that are no longer needed. The law on this is currently spread over a few enactments, some of which are around 80 years old, even, and there are gaps in the legislation, and they don't fully reflect the arrangements that we've all become used to working in. Also, none of the legislation is currently bilingual.”⁵⁵

- 42.** Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd:

“... it's a tidying up provision, if you like. It's about accessibility, it's about allowing things to happen in Welsh law that I think some of us might be quite surprised don't happen. I have to say that I was quite surprised to find that there was no such thing in law as a Welsh statutory instrument, for example. I think quite a few of us would find that surprising. So it allows us to tidy it up, to

⁵⁴ Y Cyfarfod Llawn, 22 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [132], [136], [138] a [139]

⁵⁵ Y Cyfarfod Llawn, 22 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [131] i [176]

have a series of Welsh statutory instruments that are numbered as such, and to allow accessibility more generally.

It also allows us to access the King's Printer as a King's Printer for Wales for the first time, and again, I think I can't be alone in having been quite surprised that that wasn't something we already had. So effectively I think it's putting the law into the state that many of us might have guessed it was already in.”⁵⁶

43. O ran y darpariaethau yn Rhan 3 o'r Bil mewn perthynas â diddymu deddfwriaeth, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym:

“... it's an issue for us, that we need to get into the habit of reviewing our own legislation and making sure that it's tidied up and repealed. So, I would hope that the Senedd would see a number of these [Bills including repeal provisions] coming forward with regular monotony ... we want to get into the habit, if you like, of that kind of tidying-up-type process. And this is all about ... making sure that jobbing lawyers, when they come in front of the court, can be clear that what they're looking at is the law ... that's in force and hasn't become obsolete because it's been repealed by the miscellaneous provisions Act 20,025 that you unfortunately didn't look up.”⁵⁷

44. Mewn gohebiaeth, rhoddodd yr Aelod sy'n gyfrifol ragor o wybodaeth am brosesau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno Biliau sy'n diddymu darpariaethau, a chynlluniau ar gyfer eu cyflwyno yn y dyfodol:

“Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol sy'n rheoli'r broses, ac yn dilyn y Bil hwn, bydd yn casglu ac yn [cynnal] rhestrau o faterion eraill i'w cynnwys mewn Biliau tebyg yn y dyfodol. Mater i'r Llywodraeth nesaf fydd amseriad y Bil nesaf.

Soniais yn fy nhystiolaeth fod angen inni ystyried sut y caiff mathau penodol o Filiau eu hystyried, ac rwy'n awyddus i weld gweithdrefn yn cael ei datblygu ar gyfer Biliau diddymu. Mae amryw o enghreifftiau o'r Gymanwlad y gallem eu hystyried, ac

⁵⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [167] i [168]

⁵⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [216]

*rwyn sicr yn credu bod modd sefydlu dull effeithiol o ymdrin â Biliau o'r fath.*⁵⁸

45. Wrth roi tystiolaeth lafar, dywedodd Prif Weithredwr a Cheidwad yr Archifau Gwladol, Saul Nassé, fod yr Archifau Gwladol yn croesawu'r Bil yn fawr. Dywedodd fod y Bil yn rhoi Cymru ar flaen y gad wrth sefydlu arfer da o ran deddfwriaeth.⁵⁹

46. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Mr Nassé hefyd:

*"This Bill provides for pragmatic modernisation of the current law for publishing legislation. It crystallises clear and unambiguous duties on a King's Printer for Wales, which are aligned with current practice, whilst also creating a bespoke numbering scheme for Welsh Statutory Instruments. The Bill makes sure the law is focused on what's needed by the public, courts and legal profession in Wales, and creates space for us to continue to improve the service in the future, including the use of new technologies."*⁶⁰

47. Mynegodd Un Llais Cymru hefyd ei gefnogaeth i'r Bil mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.⁶¹

48. Fodd bynnag, mynegodd Dr Ruth Fox o Gymdeithas Hansard rywfaint o bryder ynghylch disgrifiad yr Aelod sy'n gyfrifol⁶² o'r Bil fel un sydd "yn ceisio rhesymoli ac, yn y bôn, yn codio gweithdrefnau sydd wedi mynd yn rhy gymhleth". Dywedodd Dr Fox wrthym:

"... it seemed to me that she was overstating what is actually in the Bill, in that there isn't much in the way of simplification of the procedures; it's a restatement of procedures or custom and practice. What there is is useful, but a relabelling of terminology. Now, that's not nothing, but it's not, I think, a rationalisation and simplification, and, in fact, the complexity often in delegated legislation in relation to enhanced and

⁵⁸ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 29 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 11

⁵⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [123]

⁶⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Ymgynghoriad ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), [L\(PPR\)01 - yr Archifau Gwladol](#), 12 Tachwedd 2024

⁶¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Ymgynghoriad ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), [L\(PPR\)02 - Un Llais Cymru](#), Tachwedd 2024

⁶² Y Cyfarfod Llawn, 22 Hydref 2024, Cofnod y Trafodion [132]

superaffirmative procedures, for example, is not dealt with, really. So, my concern was more that something was being asserted that was broader than what the Bill actually can sustain.”⁶³

49. Pan ofynnwyd iddi ymateb i'r farn a fynegwyd gan Dr Fox, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol, er ei bod yn deall y pwynt a oedd yn cael ei wneud, ei bod yn glynu wrth ei datganiad blaenorol. Ymhelaethodd hefyd, gan ddweud:

“I think we have, through schedules 1A, B and C, rationalised pre-existing procedures. Some of the procedures are hardly ever used, but they still sit there. Draft negative might not be used very often, for example. But in future, it will become one of the three procedures ... I think it is accurate to describe them as codified, because they're all located in the one place in one Act, and previously they were spread about the place. And there won't be a requirement to look through other provisions in order to find them; they will all just be in the one place.

So, it brings them together; it simplifies them to core procedures; it reflects Welsh devolution and the existence of the Senedd and the Welsh Ministers; it uses modern drafting techniques and language ... And, of course, absolutely, primarily, they're set out in both languages with equivalence, so they absolutely improve accessibility.”⁶⁴

Yr angen am y Bil

50. Mae'r Memorandwm yn dweud na fyddai, heb ddiwygio deddfwriaethol, yn bosibl cyflawni amcan Llywodraeth Cymru o dynnu ynghyd a ffurfioli'r trefniadau ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru. Fel arall, meddai:

“... yr unig opsiwn arall fyddai parhau â phethau fel y maent ar hyn o bryd. Gallai'r Llywodraeth a Senedd Cymru barhau i weithredu gan ddefnyddio'r gweithdrefnau presennol ar gyfer gwneud deddfwriaeth ac, ar gyfer y Llywodraeth, byddai hyn hefyd yn cynnwys cyhoeddi is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud heblaw drwy offeryn statudol. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu na fyddai'r gyfraith yn adlewyrchu'n llawn ac yn

⁶³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [9]

⁶⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [28] i [30]

gywir y trefniadau ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth a byddai'r gyfraith yn Saesneg yn unig.”⁶⁵

51. O ran a oes angen y darpariaethau yn y Bil sy'n diddymu deddfwriaeth, dywed y Memorandwm:

“... mae'n bosibl y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i ddileu darpariaethau nad ydynt yn angenrheidiol mwyach mewn Deddfau gan Senedd Cymru neu Ddeddfau gan Senedd y DU. Gellir gwneud hyn pan gyflwynir Bil diwygio'r gyfraith sy'n ymdrin â phwnc penodol, ond nid oes sicrwydd y bydd cyfrwng addas ar gael ar adeg addas. Gall cynnwys diddymiad arfaethedig hefyd gael goblygiadau ar gyfer cwmpas y Bil sydd o dan sylw, a'r ffordd yr ymdrinnir ag ef, os nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r maes o'r gyfraith lle mae'r mater yn codi.

Gall darpariaethau diangen barhau yn y llyfr statud am flynyddoedd lawer, felly, yn aros i Fil addas fynd i'r afael â hwy. Gallai Llywodraeth Cymru barhau i weithredu fel hyn, ond ni fyddai hynny yn cefnogi'r amcan polisi cyffredinol o wella hygyrchedd cyfraith Cymru.”⁶⁶

52. Wrth roi tystiolaeth lafar, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym pam yr oedd o'r farn bod angen y Bil:

“This is a Bill that's been worked on I think it's fair to say, and without wanting to be pejorative, around the edges of the rest of the programme, because it's a Bill that's technically needed but it's not politically needed. So, it's a Bill that people have worked on, if you like, because they think it's technically needed but it hasn't been prioritised by the Government. We've now got an opportunity to bring it forward as part of the legislative programme, but it could quite easily have dropped away if we'd had a Bill with more political priority ready at the right point in time.”⁶⁷

53. O ran y flaenoriaeth sy'n cael ei rhoi i'r Bil hwn, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd mewn gohebiaeth:

⁶⁵ Y Memorandwm, paragraff 49

⁶⁶ Y Memorandwm, paragraff 50

⁶⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [170]

“Nid wyf yn credu bod y Bil hwn heddiw yn bwysicach nag un arall. Yn hytrach, rhan ydyw o'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud ers tro: gweithio'n dawel ac yn gyson i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.”⁶⁸

54. Wrth fynegi barn Cymdeithas Hansard ynghylch yr angen am y Bil, dywedodd Dr Ruth Fox:

“I think there's always an argument that can be made that this kind of, if you can call it a sort of legislative clarification, legislative tidying-up exercise, shouldn't, in a legislative programme, have the priority over something, perhaps, of a socioeconomic nature, a Bill to tackle one of the priorities of citizens, but, at the end of the day, it is important to have clarification about the status of the statute book. Decluttering exercises are important. There's never a good time for it. You can always argue for another priority, but the problem is, if you do that, you get, I'm afraid, legislative barnacles on the boat that build up over time, and the problem becomes more difficult over time. So, I think it's a useful exercise. I wish Westminster, wish the UK Government, were contemplating something similar. I think, probably, it is a useful exercise, and particularly trying to clarify some of the language around delegated legislation, which is of particular interest to us at the Hansard Society, I think, is useful.”⁶⁹

55. Adleisiodd Dr Adam Tucker sylwadau Dr Fox, gan ddweud:

“... necessity is always a really high bar, but I would say it's a good and coherent way of pursuing a sensible policy, even it's a meta/constitutional policy. And on Ruth's point that there's always the argument that now is not the time, I would say that, by the time we've got to this stage, the legislation's drafted, the Government's supporting it, it's introduced, then that makes it the time. Now that it's got to this stage, it becomes the time to do it. So, I'm uncomfortable talking about necessity, but I think the policy aims here, which are rule-of-law policy aims, are

⁶⁸ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 29 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 1

⁶⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [5]

*good constitutional aims, and the fact it's got this far makes it the time to do it.*⁷⁰

Datblygu'r Bil ac ymgynghori

56. Ym mis Hydref 2022, rhannodd Llywodraeth Cymru Fil drafft Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno.⁷¹ Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ionawr 2023, ac yna cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodedb o'r ymatebion⁷², a chadarnhau y byddai Bil yn cael ei gyflwyno i'r Senedd maes o law⁷³.

57. Ym mis Tachwedd 2023, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod gwaith ar y Bil hwnnw wedi digwydd yn ystod y flwyddyn honno⁷⁴, a dywedodd hefyd:

*"Mae ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i enw byr y ddeddfwriaeth arfaethedig, er mwyn mynegi bwriad yr hyn y bydd y Bil yn ei gyflawni mewn ffordd fwy modern. Disgwylir i'r Bil gael ei gyflwyno pan fydd amser yn caniatáu yn ystod Blwyddyn 3 o raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth (yn ystod hanner cyntaf 2024, fwy na thebyg)."*⁷⁵

58. Mae Tabl 1 yn y Memorandwm yn rhoi crynodeb o'r newidiadau a wnaed i'r Bil ar ôl i Lywodraeth Cymru ystyried yr ymatebion i'w hymgyngghoriad, ac yn sgil gwaith i ddatblygu darpariaethau'r Bil.

59. Mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn cydnabod yn y Memorandwm nad ymgynghorwyd yn ffurfiol ar ddarpariaethau'r Bil mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru, er i "gyfeiriad byr" gael ei wneud at ddarpariaeth o'r fath mewn ymgynghoriad yn 2018 ar fersiwn ddrafft o'r Bil⁷⁶ a ddaeth yn Ddeddf 2019 yn y pen draw.⁷⁷

⁷⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [7]

⁷¹ Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad: Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru)

⁷² Llywodraeth Cymru, [Bil Cyfraith Statud \(Diddymiadau\) \(Cymru\), Adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad](#), Mawrth 2024

⁷³ Llywodraeth Cymru, Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru), Adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad, Mawrth 2024, paragraff 62

⁷⁴ Llywodraeth Cymru, [Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026 - adroddiad blynyddol 2022 i 2023](#), Tachwedd 2023, paragraff 22

⁷⁵ Llywodraeth Cymru, [Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026 - adroddiad blynyddol 2022 i 2023](#), Tachwedd 2023, paragraff 23

⁷⁶ Gweler paragraffau 218 i 219 o [ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y Bil Deddfwriaeth \(Cymru\) Drafft](#), dyddiedig Mawrth 2018.

⁷⁷ Y Memorandwm, paragraff 62

60. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Aelod sy'n gyfrifol hefyd yn dweud yn y Memorandwm:

“Er bod gan holl ddefnyddwyr deddfwriaeth ddiddordeb amlwg yn hygyrchedd y ddeddfwriaeth, ni fynegwyd fawr ddim diddordeb hyd yn hyn gan randdeiliaid allanol i'r Llywodraeth yn y gyfraith sy'n sail i'r trefniadau cyffredinol ar gyfer cyhoeddi a chraffu ar ddeddfwriaeth. Mae hyn yn ddealladwy gan mai'r tri chorff sydd â diddordeb uniongyrchol yn y cynigion yw'r Senedd (sy'n penderfynu ar ffurf a manylion y broses graffu ar gyfer Offerynnau Statudol Cymreig), y Llywodraeth (sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd prosesau'r Senedd ar gyfer ymdrin â'i rhaglen o is-ddeddfwriaeth) ac Argraffydd y Brenin/Yr Archifau Gwladol (sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth).

Mae'r Llywodraeth wedi ymgysylltu'n rheolaidd â'r Archifau Gwladol ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer Offerynnau Statudol Cymreig (yn ddiweddar a thros y 15 mlynedd diwethaf). Mae eu profiad o weithredu Deddf 1946 a'r rheoliadau cysylltiedig wedi helpu i lywio'r cynigion yn y Bil. Mae craffu ar is-ddeddfwriaeth yn rhan sylweddol o'r gwaith a wneir (yn bennaf) gan Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd, ac mae'r Pwyllgor Busnes wedi penderfynu mai'r Pwyllgor hwnnw fydd yn gyfrifol am graffu ar y Bil hwn. Nid yw'r Llywodraeth, felly, wedi cyhoeddi'r cynigion hyn fel Bil drafft.

Yn yr un modd, oherwydd bod y darpariaethau ynghylch cyhoeddi Deddfau'r Senedd yn cael eu hailddatgan o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac nad oes unrhyw newidiadau sylfaenol yn cael eu cynnig, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar yr agwedd hon ar y Bil.”⁷⁸

61. Mae'r Memorandwm hefyd yn rhoi trosolwg o'r darpariaethau sy'n diddymu deddfwriaeth nad oeddent yn rhan o ymgynghoriad 2022 ond sydd bellach wedi'u cynnwys yn y Bil, a'r rhesymau dros eu cynnwys.⁷⁹ Mae hefyd yn nodi na fu

⁷⁸ Y Memorandwm, paragraffau 63 i 65

⁷⁹ Y Memorandwm, paragraffau 66 i 75

unrhyw ymgynghori ynghylch darpariaethau'r Bil sy'n gwneud mân ddiwygiadau i Ddeddf 2019.⁸⁰

62. Wrth roi tystiolaeth lafar, esboniodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol pam na chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Rhannau 1, 2 a 4 o'r Bil:

"Part 4 ... comes from the review of the 2019 Act. It's very much a Government-operation part of that 2019 Act; it's about how the legislation can be interpreted and operates. So, we did work internally with lawyers who draft legislation to check what we were proposing would meet some of those tiny modifications that they were looking for. In relation to Parts 1 and 2, obviously, Part 1 particularly is of most interest to the Senedd and the Government, and obviously this committee's going to consider that, and in relation to Part 2, we've engaged very closely with the team in the National Archives ...".⁸¹

63. Wrth roi tystiolaeth lafar, cadarnhaodd Prif Weithredwr a Cheidwad yr Archifau Gwladol, Saul Nassé, yr ymgysylltwyd â'r Archifau Gwladol wrth ddatblygu'r Bil. Dywedodd eu Pennaeth Polisi, Malcolm Todd, hefyd, oherwydd lefel yr ymgysylltu a fu, na chododd dim byd a oedd yn annisgwyl iddynt pan gyflwynwyd y Bil.⁸²

64. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol a oedd Llywodraeth Cymru – fel yr oedd pethau ym mis Tachwedd 2024 – wedi ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes ac unrhyw randdeiliaid eraill yr effeithir arnynt ynghylch y dyddiadau y disgwylir i Rannau 1 a 2 o'r Bil ddod i rym. Wrth ymateb, dywedodd wrthym, er nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes eto, ei bod wedi dechrau'r broses o wneud hynny.⁸³ Dywedodd hefyd ei bod yn disgwyl y byddai angen diwygio Rheolau Sefydlog y Senedd pe bai'r Bil yn cael ei basio.⁸⁴ Ym mis Ionawr 2025, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym ei bod bellach wedi ysgrifennu at y Llywydd⁸⁵, a dywedodd hefyd ei bod yn bosibl y bydd gan Bwyllgor

⁸⁰ Y Memorandwm, paragraff 76

⁸¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [213]

⁸² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [146] i [147]

⁸³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [201]

⁸⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [244]

⁸⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [10]

Senedd y Dyfodol⁸⁶ ran i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau a nodir yn y Bil yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau yn Rheolau Sefydlog y Senedd⁸⁷.

65. Nododd yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd y byddem ninnau, fel Pwyllgor, yn cynnal ein hymgyngoriad ein hunain mewn perthynas â'r Bil, a dywedodd fod Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgynghori ag amryw o bobl eraill.⁸⁸

66. Pan ofynnwyd iddi a ymgynghorwyd â Chomisiwn y Gyfraith mewn perthynas â'r darpariaethau yn Rhan 3 o'r Bil, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym:

"We haven't thought it necessary to involve the Law Commission. They were invited to contribute to an earlier consultation on statute law repeals, but they didn't indicate that they wanted to contribute. They've brought forward a set of statute law repeal proposals since their last report to the UK Government in 2015, and this is partly a resourcing issue for them, we understand ...".⁸⁹

67. Gwnaethom hefyd ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol a oedd Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil, oherwydd – pe bai'r Bil yn cael ei basio – y byddai angen i ddeddfwriaeth sylfaenol a gyflwynir yn Senedd y DU gyfeirio at y gweithdrefnau a nodir yn Rhan 1 o'r Bil wrth ddirprwyo pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru. Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol y byddai angen cael sgwrs â Phrif Gwnsler Seneddol Llywodraeth y DU⁹⁰ i sicrhau bod arferion gweithio ei swyddfa yn adlewyrchu'r gweithdrefnau fel y'u nodir yn y Bil, ond nid oedd yn rhagweld y byddai unrhyw broblemau'n codi.⁹¹

68. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, Manon Antoniazzi, ei bod yn fodlon nad yw darpariaethau'r Bil yn newid y broses na'r gweithdrefnau y mae rhaid i Clerc y Senedd eu dilyn. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn "destun siom" iddi, o ystyried yr "effaith uniongyrchol" ar ei

⁸⁶ Mae Pwyllgor Senedd y Dyfodol, a sefydlwyd ar [16 Hydref 2024](#), yn gyfrifol am ystyried gweithrediad y Senedd yn y dyfodol, yn y seithfed Senedd.

⁸⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [36]

⁸⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [201]

⁸⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [215]

⁹⁰ Penodir y Prif Gwnsler Seneddol gan Brif Weinidog y DU i arwain Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol, sy'n gyfrifol am ddrafftio'r holl filiau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU.

⁹¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [247]

swyddogaethau, nad ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â hi ar ddarpariaethau'r Bil cyn ei gyflwyno.⁹² Pan gafodd ei holi ynghylch hynny, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym, er nad oedd yn fwriad ganddi achosi'r fath siom, nad oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ymgysylltu â Chlerc y Senedd. Y rheswm a roddwyd am hynny oedd nad yw'r Bil, ym marn Llywodraeth Cymru, yn effeithio ar swyddogaethau'r Clerc.⁹³

Pwerau dirprwyedig a'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth

69. Mae'r Bil yn cynnwys 11 o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, ac mae deg ohonynt yn bwerau sydd i'w mewnosod yn Neddf 2019. Gellir crynhoi'r pwerau hyn, fel y'u nodir yn Nhablau 2 a 3 yn y Memorandwm, fel a ganlyn:

- chwe phŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau neu orchmynion;
- dau bŵer i'r awdurdod cyfrifol perthnasol wneud gorchmynion; a
- thri phŵer i'w Fawrhydi yn y Cyfrin Gyngor wneud gorchmynion.

70. Mae'r Bil, yn adran 37Z, hefyd yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi penderfyniad ynghylch y trefniadau ar gyfer rhifo a dosbarthu is-ddeddfwriaeth.

71. Mae paragraff 83 o'r Memorandwm yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru, "os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus" at ddibenion gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch, drwy reoliadau ddiwygio deddfiadau i wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i Atodlenni 1A, 1B ac 1C i Ddeddf 2019, sydd i'w mewnosod gan Ran 1 o'r Bil. Pan ofynnwyd iddi egluro pam y cafodd y gair "hwylus" ei gynnwys, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai'r Memorandwm yn cael ei ddiwygio, gan nad yw'r Bil yn cynnwys terminoleg o'r fath.⁹⁴

⁹² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Ymgynghoriad ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), L(PPR)04 - Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, Rhagfyr 2024

⁹³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [53]

⁹⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [197]

Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol

72. Yn ystod hynt y Bil a ddaeth yn Ddeddf 2019, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd Rhan 1 o'r Ddeddf honno hanner ffordd drwy'r Chweched Senedd.⁹⁵

73. Yn 2023, cynhaliodd Llywodraeth Cymru yr adolygiad hwnnw a chyflwynodd adroddiad ar ei ganlyniadau.⁹⁶ Fel y nodir yn y Memorandwm, nododd yr adolygiad agweddau penodol ar Ran 2 o Ddeddf 2019 a allai – ym marn Llywodraeth Cymru – fod yn fwy eglur, yn enwedig yng ngoleuni ei phrofiadau o ddrafftio Biliau cydgrynhoi a oedd wedi digwydd ers i'r Bil ddod yn Ddeddf.⁹⁷

74. Fodd bynnag, yn achos y Bil sy'n cael ei ystyried yn awr, dywed y Memorandwm nad oes “ar hyn o bryd” unrhyw fwriad i gynnal adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o'i weithrediad, am y rhesymau a ganlyn:

- *“Yn y bôn, moderneiddio a chodeiddio'r trefniadau presennol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Offerynnau Statudol 1946 a deddfiadau cysylltiedig y mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru.*
- *Pan fyddant mewn grym, bydd y materion a drafodir yn Atodlen 1 i'r Bil yn cael eu diddymu neu eu diwygio ac ni fydd ganddynt unrhyw effaith gyfreithiol bellach.*
- *Mae'r mân ddiwygiadau i Ddeddf 2019 yn cael eu gwneud (a) mewn ymateb i'r adolygiad cynharach o weithrediad Deddf 2019 ei hun a (b) mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru.”⁹⁸*

75. Wrth roi tystiolaeth lafar, esboniodd yr Aelod sy'n gyfrifol ymhellach pam nad oedd dull tebyg wedi'i ddefnyddio mewn perthynas â'r Bil hwn:

“... because my predecessor went through quite a big deal with the committee about that post-legislative review, and we did all of the things that would allow that legislative review, but actually we've never received any feedback or questions from it,

⁹⁵ Y Cyfarfod Llawn (y Pumed Cynulliad), 2 Ebrill 2019, [Cofnod y Trafodion](#) [369]

⁹⁶ Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026 – adroddiad blynyddol 2022 i 2023, Tachwedd 2023, atodiad

⁹⁷ Y Memorandwm, paragraff 29

⁹⁸ Y Memorandwm, paragraff 133

*other than the review we undertook ourselves, and this is much more straightforward, so we just don't think it's a necessary thing to do.*⁹⁹

Ein barn ni

76. Rydym yn croesawu'r cynigion yn y Bil ac rydym o'r farn y bydd ei dri diben pennaf yn cael effaith gadarnhaol ar hygyrchedd cyfraith Cymru.

77. Credwn fod y Bil yn dwyn ynghyd yn effeithiol y prif weithdrefnau sy'n gymwys i is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud gan Weinidogion Cymru a'i hystyried gan y Senedd. Mae hefyd, am y tro cyntaf, yn pennu yn y gyfraith swyddogaethau penodol ar gyfer yr hyn sydd i'w alw'n Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru, ac yn rhoi sail gyfreithiol i'r cysyniad o offeryn statudol Cymreig. Rydym yn croesawu'r datblygiadau hyn ac mae'n hen bryd iddynt gael eu cyflwyno ar ôl 25 mlynedd o ddatganoli. Rydym hefyd yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno rhagor o Filiau diddymu, a fydd yn helpu i sicrhau bod y gyfraith sydd mewn grym yn eglur ac yn hygyrch i bawb.

78. Rydym hefyd o'r farn bod y ffaith, drwy'r Bil, y bydd y ddeddfwriaeth sy'n nodi'r gwahanol drefniadau ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth yng Nghymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg am y tro cyntaf yn ddatblygiad sydd i'w groesawu'n fawr.

79. Gan hynny, rydym o'r farn y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Argymhelliad 1. Dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru).

80. Fel y clywsom wrth inni drafod y Bil, rydym yn cydnabod efallai na fydd byth amser arbennig o dda – oherwydd blaenoriaethau eraill y Llywodraeth – i gyflwyno Bil o'r natur hwn. Fodd bynnag, credwn fod angen y Bil hwn yng nghyd-destun ehangach sicrhau hygyrchedd cyfraith Cymru, ac, fel yr ydym wedi'i nodi uchod, mae'n hen bryd i lawer o'r darpariaethau yn y Bil gael eu cyflwyno.

81. Nodwn resymau Llywodraeth Cymru dros beidio â chyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ar lawer o ddarpariaethau'r Bil; ond rydym yn croesawu ei phenderfyniad i rannu fersiynau drafft o ddarpariaethau y cynigir eu diddymu yn y Bil.

⁹⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [195]

82. Yn yr un modd, nodwn y rheswm dros benderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio ag ymgynghori â Chlerc y Senedd, gan fod y Bil yn ailddatgan swyddogaethau presennol y Clerc.

83. Serch hynny, yn fwy cyffredinol, credwn y gallai cynnal ymgynghoriad cyfyngedig mewn perthynas â'r Bil fod wedi helpu i godi proffil y materion pwysig sydd yn y Bil er mwyn hybu dealltwriaeth ohonynt a'u perthnasedd i hygyrchedd cyfraith Cymru.

84. Fel y dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol, bydd angen adolygu Rheolau Sefydlog y Senedd er mwyn iddynt gyd-fynd â darpariaethau'r Bil, ac yn hynny o beth nodwn fod yr Aelod sy'n gyfrifol wedi hysbysu'r Llywydd am y gofyniad hwn. Nodwn hefyd – o ganlyniad i'r Bil – y bydd angen addasu'r ffordd y caiff Biliau sydd i'w cyflwyno i Senedd y DU eu drafftio pan fônt yn cynnwys darpariaethau i ddirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru.

85. Rydym yn fodlon ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, a nodwn y bydd y rhan fwyaf o'r pwerau dirprwyedig yn cael eu mewnosod yn Neddf 2019.

86. Yn olaf, nodwn esboniad Llywodraeth Cymru ynghylch pam nad yw, ar hyn o bryd, yn bwriadu cynnal adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o weithrediad y Bil, os daw'n ddeddf. Fodd bynnag, credwn y dylid cynnal asesiad o effeithiolrwydd a gweithrediad deddfwriaeth sylfaenol a gyflwynir i'r Senedd fel mater o drefn, ac y dylid cyflwyno adroddiad i'r Senedd wedi hynny, mewn modd amserol, ar ganlyniadau asesiad o'r fath. Credwn fod hyn yn arbennig o bwysig o ystyried ein trafodaethau diweddar ar reoliadau i weithredu Rhan 4 o *Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017*.¹⁰⁰

Casgliad 2. Fel mater o arfer da, dylai pob Bil fod yn destun adolygiad ôl-weithredu, a dylid cyflwyno adroddiad i'r Senedd ar ganlyniadau adolygiad o'r fath.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o ystyriaeth i gynnal adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o'r Bil, os daw'n ddeddf, hanner ffordd drwy'r Seithfed Senedd, ac o ganlyniad, dylai ystyried cyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal adolygiad o'r fath.

¹⁰⁰ Gweler ein [llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, dyddiedig 17 Hydref 2024](#), a oedd yn tynnu sylw at y ffaith ei bod wedi cymryd dros saith mlynedd i'r darpariaethau perthnasol gael eu gweithredu.

4. Y weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru

87. Mae Rhan 1 o'r Bil yn mewnosod Rhan 2A newydd yn Neddf 2019 i wneud darpariaeth ynghylch gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru. Mae'r Memorandwm yn nodi bod y dull hwn yn "osgoi gwneud darpariaeth 'annibynnol' mewn Deddf ar wahân ac yn sicrhau, yn hytrach, fod y darpariaethau hyn yn ffurfio rhan o'r ddeddf Gymreig sydd eisoes yn ymdrin â hygyrchedd, dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru."¹⁰¹

Gweithdrefnau craffu'r Senedd

88. Mae Rhan newydd 2A o Ddeddf 2019 yn gosod y cysyniad o "offeryn statudol Cymreig" ar sail statudol. At hynny, mae'n nodi ac yn rhoi enw (neu label) i rai mathau o weithdrefnau craffu'r Senedd ar gyfer is-ddeddfwriaeth Cymru y mae'n ofynnol ei gwneud drwy offeryn statudol. Mae'r gweithdrefnau hyn, a'u henwau, wedi'u darparu yn y Bil fel a ganlyn:

- Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd – ni ellir gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn hon oni bai bod drafft o'r offeryn statudol Cymreig wedi'i osod gerbron y Senedd, a'i gymeradwyo wedi hynny gan y Senedd. Gelwir y weithdrefn hon yn anffurfiol ar hyn o bryd yn "weithdrefn gadarnhaol".¹⁰²
- Gweithdrefn gadarnhau'r Senedd – gall Gweinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn hon, a'i gosod wedyn gerbron y Senedd, ond ni all barhau i gael effaith na dod i rym yn y dyfodol oni bai bod y Senedd wedi hynny yn ei chadarnhau drwy benderfyniad. Gelwir y weithdrefn hon yn anffurfiol ar hyn o bryd yn "weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'".¹⁰³
- Gweithdrefn annilysu'r Senedd – gall Gweinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn hon, a'i gosod wedyn gerbron y Senedd. Fodd bynnag, os bydd y Senedd yn penderfynu, cyn diwedd 40 diwrnod gan ddechrau ar y dyddiad y gosodwyd yr is-ddeddfwriaeth ger ei bron, na ddylai'r ddeddfwriaeth barhau i gael

¹⁰¹ Y Memorandwm, paragraff 31

¹⁰² Gweler adran newydd 37C o Ddeddf 2019, sydd i'w mewnosod gan adran 1 o'r Bil.

¹⁰³ Gweler adran newydd 37D o Ddeddf 2019, sydd i'w mewnosod gan adran 1 o'r Bil.

effaith, ni fydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith, mwyach. Gelwir y weithdrefn hon yn anffurfiol ar hyn o bryd yn “weithdrefn negyddol”.¹⁰⁴

89. At hynny, mae Rhan 2A newydd o Ddeddf 2019 yn darparu bod yn rhaid i unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir gan offeryn statudol Cymreig nad yw'n ddarostyngedig i un o'r gweithdrefnau uchod gael ei gosod gerbron y Senedd.¹⁰⁵

90. Yn ogystal, mae'r Rhan newydd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i wahanol weithdrefnau'r Senedd a chymhwyso'r Rhan o dan amgylchiadau gwahanol.

91. Mae'r Memorandwm yn nodi mewn perthynas â'r darpariaethau yn Rhan newydd 2A:

“Can fod Rhan 2A yn pennu'r hyn y mae pob enw yn ei olygu, gall Deddfau Senedd Cymru yn y dyfodol ddefnyddio'r termau hyn yn hytrach na nodi'r gofynion ar gyfer pob gweithdrefn ym mhob Deddf (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd). Fel gydag agweddau eraill ar Ddeddf 2019, mae hyn yn helpu i fyrhau a symleiddio deddfwriaeth y dyfodol, a hyrwyddo cysondeb yn iaith, ffurf a gweithrediad deddfwriaeth y dyfodol.

Mae Rhan 2A hefyd yn sicrhau y bydd pwerau presennol mewn Deddfau, sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru neu awdurdod Cymreig datganoledig, i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf offeryn statudol yn y dyfodol yn cael eu harfer ar ffurf offeryn statudol Cymreig. Bydd y gweithdrefnau presennol sy'n gymwys i wneud is-ddeddfwriaeth yn cael eu 'trosi' yn un o weithdrefnau codeiddiedig Senedd Cymru. Gwneir hyn gan yr Atodlen 1A newydd arfaethedig.”¹⁰⁶

92. Darparodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol y sail resymegol a ganlyn ar gyfer drafftio'r Rhan hon:

“... beth rŷn ni'n ei wneud yw trio symleiddio'r broses. Felly, mae yna dri label ac mae'r labelau hynny, wedyn, yn gallu cael eu defnyddio mewn pob Bil yn y dyfodol. Felly, yn y dyfodol, jest fel bod y pwyllgor yn deall, beth rŷn ni'n bwriadu'i wneud yw—. Er enghraifft, bydd y rheoliadau o dan adran 7 yn ddarostyngedig i'r broses lle mae'r Senedd yn gorfod cytuno. So, rŷn ni'n

¹⁰⁴ Gweler adran newydd 37E o Ddeddf 2019, sydd i'w mewnosod gan adran 1 o'r Bil.

¹⁰⁵ Gweler adran newydd 37F o Ddeddf 2019, sydd i'w mewnosod gan adran 1 o'r Bil.

¹⁰⁶ Y Memorandwm, paragraffau 34 a 35

defnyddio'r label yna heb unrhyw esboniad pellach, achos mae'r esboniad pellach yn fan hyn.

Mae yna elfennau sydd bach yn fwy technegol hefyd, achos beth mae'r Bil yn trio ei wneud yw edrych i'r dyfodol ond hefyd trio tacluso'r gorffennol. Felly, mae yna Atodlenni sydd yn ailadrodd ac yn edrych bach yn gymhleth ac yn ddiflas, ond maen nhw yno er mwyn i ni hidlo, mewn ffordd, beth sydd wedi digwydd yn y gorffennol, fel bod pob offeryn, p'un ai bod y pŵer yn bodoli cyn i'r Bil yma ddod i rym—neu'r Ddeddf yma ddod i rym, gobeithio—neu unrhyw offeryn sy'n cael ei wneud o dan ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud yn y dyfodol, i gyd yn defnyddio'r un derminoleg. Ond beth dŷn ni ddim wedi'i wneud yw mynd trwy'r holl lyfr statud i newid hynny, so pwrpas yr Atodlenni yw hidlo, fel rwy'n dweud; mae yna gyfeiriad at yr hen derminoleg fan hyn yn golygu'r derminoleg newydd sydd yn y Bil yn y dyfodol. Felly, mae yna elfennau mwy technegol fanna, sydd y tu ôl i'r syniad eithaf syml, yn y bôn, sef bod yna dri phroses, neu mae offeryn yn cael ei osod ac rŷn ni'n rhoi labelau byr iddyn nhw unwaith ym mhob Bil yn y dyfodol.”¹⁰⁷

93. Dywedodd Dr Ruth Fox o Gymdeithas Hansard wrthym ei bod o'r farn bod y ffaith bod y Bil yn enwi'r gweithdrefnau yn ddefnyddiol i wella hygyrchedd¹⁰⁸, ac roedd Dr Adam Tucker yr un mor gefnogol i'r labeli a ddarparwyd ar gyfer y gweithdrefnau craffu¹⁰⁹.

94. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol a oedd hi o'r farn bod yr ymadrodd “gweithdrefn annilysu'r Senedd”, fel y'i nodir yn y Bil, yn hygyrch ac yn ddealladwy. Mewn ymateb, dywedodd wrthym mai hwn oedd y dewis lleiaf gwael o ystod a gafodd ei hystyried gan Lywodraeth Cymru¹¹⁰, ac eglurodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol ymhellach, fel a ganlyn:

“Rwy'n deall y pwynt—mae e'n air eithaf technegol—ond, ar ddiwedd y dydd, mae'r broses yn un eithaf technegol ac, ar y funud, rŷm ni'n cyfeirio at bethau fel y broses negyddol a phethau fel yna—negative procedure, affirmative procedure. Mae yna wahanol dermau rŷm ni wedi bod yn eu defnyddio.

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [228] a [229]

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [63]

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [65]

¹¹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [23]

Beth roeddem ni'n trio ei wneud oedd cael un gair ar gyfer y sefyllfa lle mae'r Senedd yn penderfynu peidio gadael i offeryn gael ei wneud—hynny yw, i annilysu beth sydd wedi cael ei wneud eisoes gan y Llywodraeth neu gan Weinidog, cadarnhau pan fo'r offeryn wedi cael ei wneud ond bod angen i'r Senedd gytuno ei fod e i barhau, a'r sefyllfa lle, wrth gwrs, mae'n rhaid i'r Senedd gytuno yn y lle cyntaf. So, rŷm ni wedi trio pigo tri gair sydd yn cyfleu'r broses yna. Mae'r un yna, 'annilysu' neu 'annulment', efallai yn swnio'n eithaf technegol ond, yn ein barn ni, doedd dim gair gwell a mwy syml roeddem ni'n gallu ei ddefnyddio.”¹¹¹

95. At hynny, dywedodd y swyddog y byddai Llywodraeth Cymru yn fodlon gwrandao ar “unrhyw awgrymiadau eraill” am enw arall ar gyfer y drefn hon.¹¹²

96. Nodwyd gennym, hefyd, nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth ynghylch yr amserlen ar gyfer pryd y bydd yn rhaid cyflwyno is-ddeddfwriaeth i ddirymu offeryn statudol sydd wedi'i annilysu. O'r herwydd, gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol rannu ei barn ar effeithiau absenoldeb darpariaeth o'r fath ar hygyrchedd y gyfraith, ac a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried diwygio'r Bil i ddarparu ar gyfer darpariaeth o'r fath. Ymatebodd fel a ganlyn:

“I think that's just a thing about practicalities and what the effect of it might be. There is isn't a timescale at the moment, but we always endeavour to do just that. For example, it's not always possible for us to say when the Privy Council is going to meet, so if we put an arbitrary time limit on it and then the Privy Council didn't meet in that time period, presumably what would then have to happen is a Welsh Minister would have to come to the Senedd and explain why they hadn't been able to do it in the time available. I'm not sure that serves any real purpose. If the committee feels strongly about it, we will certainly consider it, but I'm not sure what effect it would have. And obviously, we want to do it as fast as we can, because you're trying to simplify the statute book and get access to the law. But I'm not sure, given who has to take part in it, that it's entirely possible to say it would always be within whatever that time period might be.”¹¹³

¹¹¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [24]

¹¹² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [26]

¹¹³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [59]

97. Mae Rhan 1 o'r Bil hefyd yn mewnosod tair Atodlen newydd yn Neddf 2019, fel a ganlyn:

- Mae Atodlen 1A yn cymhwyso darpariaethau Rhan newydd 2A o Ddeddf 2019 i is-ddeddfwriaeth Cymru a wneir drwy offeryn statudol o dan “deddfiadau cyn-gychwyn”, mewn geiriau eraill, deddfiadau a ddeddfwyd neu a wnaed cyn i Ran 2A ddod i rym.
- Mae Atodlen 1B yn cymhwyso darpariaethau Rhan newydd 2A i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru a pherson arall (ac eithrio awdurdod Cymreig datganoledig) drwy offeryn statudol, er enghraifft, ar y cyd neu'n gyfansawdd ag Ysgrifennydd Gwladol.
- Mae Atodlen 1C yn cymhwyso darpariaethau Rhan newydd 2A i is-ddeddfwriaeth a wneir fel Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor pan fo'n rhaid gosod yr offeryn statudol gerbron y Senedd.

98. Mewn tystiolaeth lafar, rhoddodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol yr esboniad a ganlyn dros gynnwys yr Atodlenni hyn:

“The idea is that we're just capturing everything so that the new terminology is used routinely. It's had to be done in that way from a drafting perspective, because each of those three situations [as outlined respectively in the three Schedules] are a little bit different, so we decided to repeat the process in relation to each one. So, there's quite a bit of repetition there, but in the end, we felt that it was still a bit clearer to do it like that.”¹¹⁴

99. Mae'r Memorandwm yn nodi nad oes “bwriad uniongyrchol” i ddefnyddio'r pwerau yn adran newydd 37F(2)(c) ac Atodlen newydd 1A, paragraff 6(3)(c), o Ddeddf 2019, er ei bod yn “yn beth call sicrhau bod mecanwaith priodol ar gael i alluogi deddfiadau penodol i gael eu rhestru pe bai'r Senedd neu Weinidogion Cymru yn ystyried nad oes angen gosod offerynnau penodol gerbron y Senedd.”¹¹⁵ Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol, mewn gohebiaeth, roi cyfiawnhad pellach dros gynnwys y pwerau hyn; ymatebodd fel a ganlyn:

“... y bwriad gyda'r Rhannau 2A a 2B newydd yw codeiddio a moderneiddio'r trefniadau deddfwriaethol presennol i adlewyrchu realiti datganoli a realiti arferion presennol. Mae

¹¹⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [256]

¹¹⁵ Y Memorandwm, paragraff 82

adran 37F yn adlewyrchu trefniadau ac arferion presennol, ac yn gwella'r sefyllfa sydd ohoni hefyd.

Ar hyn o bryd os nad yw deddfiad yn darparu bod rhaid gosod offeryn statudol gerbron y Senedd (naill ai fel rhan o'r weithdrefn ar gyfer ei wneud neu fel arall), yna ni chaiff yr offeryn ei osod. Mae'r adran 37F newydd yn darparu sefyllfa 'ddiofyn' sy'n golygu bod rhaid i offerynnau statudol nad ydynt yn ddarostyngedig i weithdrefn o dan adran 37C, 37D neu 37F gael eu gosod. Bydd hyn yn effeithio'n bennaf ar orchmynion cychwyn a rhai gorchmynion penodol eraill.

Mae rhai eithriadau i'r gofyniad diofyn fodd bynnag: offerynnau "lleol" nad yw'n ofynnol eu gosod ar hyn o bryd, a'r rheini sy'n ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd (a osodir o dan y weithdrefn honno felly). Mae swyddogion wedi cynnal ymarfer i nodi unrhyw ddeddfiadau eraill nad oes gofyniad ynddynt ar hyn o bryd i osod offeryn gerbron y Senedd, y dylid cadw eu heffaith. Hyd yn hyn nid yw'r gwaith hwnnw wedi nodi unrhyw ddeddfiadau perthnasol, ond ni allwn fod yn sicr na fydd deddfiad o'r fath yn dod i'r golwg rywbryd yn y dyfodol. Felly mae'r pwerau yn adran 37F(2)(c) ac ym mharagraff 6(3)(c) o Atodlen 1A yn darparu mecanwaith ar gyfer ychwanegu deddfiadau o'r fath i'r rhestr o esemptiadau o'r gofyniad diofyn.

Hyderaf y bydd y Pwyllgor yn deall, felly, nad wyf yn cytuno â'ch cyflead o fwriadau'r Llywodraeth yn eich gohebiaeth. Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol nid oes unrhyw "fwriad uniongyrchol", nad yw yr un peth a dim bwriad o gwbl.

Mae'r Senedd yn dal yn rhydd i benderfynu nad oes angen arfer pwerau mewn Bil a gyflwynir yn y dyfodol i wneud is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol Cymreig yn ddarostyngedig i weithdrefn. Ac yn yr achosion hynny, mae'r Senedd hefyd yn rhydd i nodi na fydd adran 37F yn gymwys. Nid yw'r Bil yn cyfyngu ar bwerau'r Senedd yn hyn o beth."¹¹⁶

¹¹⁶ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 29 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 3

100. Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol inni mewn tystiolaeth lafar na fyddai'r Bil yn atal diwygio gweithdrefnau craffu o fewn Biliau yn ystod eu taith, yn aml o ganlyniad i argymhellion a wnaed gan bwyllgorau'r Senedd.¹¹⁷

101. At hynny, cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym mewn gohebiaeth nad yw'r Bil yn cynnwys pŵer cyffredinol i newid y weithdrefn graffu sydd ynghlwm wrth y pwerau presennol, er bod adran newydd 37G – fel ailddatganiad o'r adran 40 bresennol o Ddeddf 2019 – yn cynnwys pŵer i gyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i wahanol weithdrefnau'r Senedd.¹¹⁸

Y cyfleoedd y gall y Bil eu darparu i godeiddio gweithdrefnau craffu eraill, neu i ddarparu ar gyfer gweithdrefnau craffu newydd

102. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol esbonio pam nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer yr hyn a elwir yn aml yn weithdrefnau 'uwch' neu 'uwchgadarnhaol', megis dyletswyddau i ymgynghori ar offerynnau statudol drafft neu osod offerynnau gerbron y Senedd am gyfnod hirach cyn i gynigion i'w cymeradwyo gael eu hamserlennu ar gyfer dadl. Ymatebodd fel a ganlyn:

"I think the use of the term 'superaffirmative procedure' has always been a little bit problematic. I think you and I and members of the committee have had a number of occasions on which we've debated exactly what it is that we've meant in the past by 'the superaffirmative procedure'. It tends to differ. It involves putting additional requirements on, usually, the Welsh Ministers, but on the entity involved in the procedure that will make the instrument to consult on draft instruments for various periods or lay reports at specific times before the Senedd is asked to approve a final instrument. Just to say, there's nothing in this Bill that prevents the Senedd, through an Act, from placing additional requirements on the entity responsible, which will almost always be the Welsh Ministers. There's nothing to stop such additional requirements being imposed from the perspective of Senedd procedure in any draft that comes forward, but ultimately it comes down to the draft that's being subject to approval."¹¹⁹

¹¹⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [225]

¹¹⁸ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 29 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 6

¹¹⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [16]

103. At hynny, gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol a oedd Llywodraeth Cymru wedi nodi unrhyw bosibiliadau eraill, a gyflwynwyd gan y Bil, i wella'r gweithdrefnau craffu sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mewn ymateb, dywedodd:

"Well, it depends what you think the Bill is trying to do, I think. So, certainly, as part of a conversation that I've had with a number of Members and I've had myself, the issue about where statutory instruments are referred by the Business Committee—so, they tend to be referred to this committee as a technical reporting matter, and I'm on record as saying that I think sometimes it would be more appropriate for them to go to a policy committee. There is an issue ... about what a statutory instrument is and who is the authority that's making it that slightly complicates that, but it's not something we've included in this Bill, because this Bill, apart from that one improvement about laying all of the statutory instruments in front of the Senedd, which I think was an omission, is not seeking to change anything, it's just seeking to make it more accessible and codified, if you like."¹²⁰

104. At hynny, gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol a oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried cynnwys darpariaeth a fyddai'n galluogi diwygio offerynnau statudol yn ystod eu taith drwy'r Senedd. Er iddi ddweud wrthym, mewn ymateb, fod ganddi "ddiddordeb mawr" mewn trafod y mater hwn, dywedodd:

"... we've very much tried to keep this as a codification and simplification Bill, and I think that takes it out of that into what might be very interesting innovative procedures, but is definitely not just simplifying. I think there are some issues that we would want to go into in how to do that. As you say, it's been the subject of much discussion in other Parliaments, that's for sure, and we would want to think through how that would work. And if we've got these much more straightforward procedures, how would it fit? ... a statutory instrument is something that's done under Executive authority, under a Bill, it's put forward, the Senedd can say 'yes' or 'no', it can't say 'maybe', or 'with this'. You might have a process where the committee—a policy committee now, not the technical committee—says, 'Well, why don't you think about including this, or excluding that from the

¹²⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [227]

policy?’ and the Minister could agree to do that and so adopt the language, if you like. But then there’d be a process of having to re-lay the statutory instrument. So, we’d have to think through the process of how that would work, and I think this Bill isn’t the place to do that, though I’m very interested in doing it.”¹²¹

105. O ran a ddylai'r Bil gynnwys darpariaeth o'r fath, dywedodd Dr Ruth Fox o Gymdeithas Hansard:

“... in terms of delegated legislation specifically, we at the Hansard Society have been conducting a review of the Westminster procedures, and I think some of the provisions there would be helpful to the devolved legislatures as well. But, by and large, I wouldn't put them, in the main, in statute. Procedure of the legislature should, by and large, be kept to Standing Orders if at all possible. So, our approach is always that you put the minimum in statute and the bulk of procedural reform in Standing Orders.

Now, the problem of course is that the Statutory Instruments Act 1946 has got one key aspect of the procedures, the negative procedure, in that text. So, in effect, what's happening here with the Bill is a balancing-out, by putting the affirmative procedures in as well and renaming them. The kinds of things that we are advocating for through our delegated legislation review—for example, amendability of approval motions; not of the text of an instrument, but the amendability of the approval motions to give conditional approval to an instrument, subject to the government, whether that's Westminster or Wales, giving approval to it, subject to, perhaps, some changes being made to it—that doesn't need to be in the Bill. That can be done by the Standing Orders. So, the Bill merely references that the Senedd must reach a resolution on an instrument or must resolve to pass a motion to approve an instrument. It doesn't dictate how the Senedd reaches that resolution or approves that motion. So, that could be done by the Standing Orders. So,

¹²¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [231]

in general, I would say I would keep as little as possible on the face of a Bill.”¹²²

106. At hynny, dywedodd Dr Fox wrthym, o ran gwneud darpariaeth i alluogi offerynnau statudol i gael eu diwygio:

“It arguably undermines the principle of delegation, but I think there are practical issues. ... I do wonder, if changes were being made, particularly on instruments that involved the UK Government, whether it would lead to issues in terms of reconciling agreement about whether or not to accept the proposed amendment that should be made—whether that was textual amendment of the motion, or whether that was actual textual amendment of the instrument itself.”¹²³

107. Mynegodd Dr Adam Tucker amheunon tebyg, fel a ganlyn:

“What legislation can do, what legislation does do and what this Bill sets out to do is set out a menu of procedures that are available to be used, either prospectively as what we should do, or retrospectively—‘Here’s the kind of things we do do’—or case by case. But the thing that is never really legislated for is the intensity of that scrutiny, and that always is going to be a matter of political practice and of Standing Orders. So, the legislation can say, ‘This kind of statutory instrument needs this kind of approval’, but what attracts that kind of approval from a legislature is always, really, a question for the cultures and the Standing Orders of that legislature. And I think that division is fairly entrenched, certainly in our constitutional culture, but I don’t think we should be challenging it. It makes sense that if we give to a legislature the power to scrutinise delegated legislation, we don’t put in the legislation how it should carry out that task.

... I’m very sceptical of making secondary legislation amendable during the scrutiny process. ... My worry is that, on the one hand, in the problematic context of a lot of delegated legislation, where my view ... is that it’s not always adequately scrutinised, the risk of that one change against that wider backdrop is that

¹²² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 6 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [14] a [15]

¹²³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 6 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [31]

it's counterproductive in the sense that it enhances the apparent authority of delegated legislation by muddying the waters about who made that legislation—was it the legislature or was it the executive? And it kind of obfuscates the underlying constitutional facts that the authority being exercised and the person who should be accountable for that law making is the Minister making the rules—the new rules, not necessarily the legislation.”¹²⁴

108. Aeth Dr Fox ymlaen i nodi argymhellion Cymdeithas Hansard sy'n galw am bwyllgor sifftio i benderfynu ar raddau'r craffu ar offerynnau statudol unigol, fel a ganlyn:

“Central to our proposals for reform at Westminster is the abolition of the concept of negative and affirmative—actually getting rid of those procedural distinctions and saying if you are bringing forward an instrument under a power, the procedure by which you today as Members scrutinise it shouldn't be determined by a provision in a Bill that was passed by the Parliament or the Senedd 10, 15, 20—in Westminster's case, 40, 50, 60—years ago; it should be determined by dint of the text of the instrument in front of you, and there should be a sifting committee—at Westminster, of one or both houses—to determine what the scrutiny procedure should be. And then, through that sifting committee, there are routes for the instrument to take, depending upon the nature of it, depending upon the legal issues, depending upon the policy content, that may give rise to concerns that need to be explored, and a new committee structure.”¹²⁵

109. Gwrthgyferbynnodd Dr Fox, hefyd, rhwng y potensial ar gyfer offerynnau statudol y gellir eu diwygio yn erbyn argymhelliad Cymdeithas Hansard am gynigion diwygiadwy i'w cymeradwyo:

“... in our advisory group for the review, we had very extensive discussions about this quite vexed question of amendability and the best way to do it. ... I think it came down to political pragmatism. It is very hard to conceive of circumstances in which any Executive in the UK is going to concede and support

¹²⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [19] a [20]

¹²⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [26]

the right to textual amendment of statutory instruments. Just as a matter of political practicality, I just can't see circumstances in which they would do it.

And unless you've got circumstances of coalition Government, where you might be able to get the numbers for that in certain circumstances, in most instances, it's therefore just not going to happen. But the prospect of an amendable motion that the Government may or may not agree with or accept and that nonetheless doesn't stop it implementing the instrument if it wants to, but with a political cost of having to marshal its majority in the Chamber to vote against something that Members have already indicated that they want—. There's a political cost to that.”¹²⁶

110. Gwnaethom ofyn i Dr Fox a allai'r Bil ddarparu mecanwaith i sicrhau bod offerynnau statudol sy'n cywiro deddfwriaeth ddiffygiol yn cael eu cyflwyno gan Weinidogion Cymru mewn modd amserol. Wth ymateb, dywedodd:

“You could have a provision that, where something has been identified and the Government's acknowledged that there is a flaw that can't be dealt with by a correction slip, then the instrument has to be introduced and dealt with within, I don't know, define a reasonable time frame, but 28, 40 days, whatever it may be—certainly that. Also one thing, in terms of the actual Bill as it is, if an instrument were to be rejected or annulled, there is no provision in the Bill about when the statutory instrument revoking that provision would have to be introduced. There is a provision that a statutory instrument would have to revoke the original instrument, but it doesn't specify within any timescale. And it seems to me, in the principles of the Bill—transparency, accessibility, decluttering—that requiring clarity on that as well would be helpful, because, again, it would no longer be enforced, but it would still sit there on the statute book essentially. So, I think those two things would go together.”¹²⁷

¹²⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [50] a [51]

¹²⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [67]

Dim gofyniad i wneud gorchmynion traffig ffyrdd drwy offeryn statudol Cymreig

111. Mae adran 2 o'r Bil yn diwygio *Deddf Priffyrdd 1980* a *Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984* fel nad yw'n ofynnol mwyach i orchmynion traffig ffyrdd penodol gael eu gwneud drwy offeryn statudol Cymreig.

112. Mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn nodi mewn perthynas â'r adran hon:

“Mae'r gorchmynion hyn yn lleol eu natur, hynny yw, maent yn gymwys i ffordd benodol, neu ran ohoni, at ddiben penodol ac am gyfnod penodol. Nid ydynt yn gymwys yn ehangach nac o ddiddordeb ehangach. Er enghraifft, caniateir eu defnyddio i gau ffordd i alluogi cynnal digwyddiad. I roi enghraifft arall, gellid defnyddio gorchmynion o'r fath hefyd i ostwng dros dro'r terfyn cyflymder uchaf a ganiateir ar ffordd neu ffyrdd penodol tra bo gwaith atgyweirio yn cael ei wneud.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r holl orchmynion traffig ffyrdd o'r fath ar ei gwefan (www.llyw.cymru), ar y cyd ag is-ddeddfwriaeth arall y gellir ei defnyddio at ddibenion tebyg ond nad yw'n ofynnol ei gwneud fel offeryn statudol.

Nid yw'r diwygiadau hyn i Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn gymwys i orchmynion nac is-ddeddfwriaeth arall sy'n gymwys yn gyffredinol ac o ddiddordeb cyffredinol (neu nad ydynt dros dro) – byddai is-ddeddfwriaeth o'r fath, yn rhinwedd Rhan 2A newydd o Ddeddf 2019, yn cael ei gwneud fel offeryn statudol Cymreig.”¹²⁸

113. Mae'r Memorandwm yn nodi bod y gofyniad presennol ar Lywodraeth Cymru i wneud rhai gorchmynion ffyrdd dros dro fel offerynnau statudol yn arwain at gostau i'w hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. At hynny, nid yw gorchmynion ffyrdd dros dro cyfatebol a wneir mewn perthynas â Lloegr, gan National Highways, yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol.¹²⁹

¹²⁸ Nodiadau Esboniadol, paragraffau 69 i 71

¹²⁹ Y Memorandwm, paragraff 23

114. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol nodi pa asesiad yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y ddarpariaeth hon ar hygyrchedd y gorchmynion traffig ffyrdd perthnasol. Mewn ymateb, dywedodd:

*"We currently publish copies of those on a dedicated part of our website alongside all the stopping-up orders and other temporary road notices that are not made as statutory instruments, and they're also published as public notices through local newspapers. It's arguable that there's a more comprehensive set of arrangements than is provided by legislation.gov.uk or Westlaw UK, which only publish statutory instruments. So, it won't change our practices of publishing all the road traffic legislation on the gov.wales site. In fact, if anything, it strengthens it, because it says that we're going to publish them all in that way."*¹³⁰

Ein barn ni

115. Rydym o'r farn bod y Bil yn nodi'n briodol y tair gweithdrefn graffu graidd y mae offerynnau statudol Cymreig yn ddarostyngedig iddynt ar hyn o bryd, ac rydym o'r farn bod y labeli a ddarperir ar eu cyfer – gweithdrefnau cymeradwyo, cadarnhau ac annilysu'r Senedd – yn taro cydbwysedd priodol rhwng darparu disgrifiad cywir a'u gwneud yn hawdd i'w deall.

116. At hynny, rydym yn croesawu gofyniad y Bil bod yn rhaid i bob is-ddeddfwriaeth a wneir drwy offeryn statudol Cymreig gael ei gosod gerbron y Senedd, ac rydym o'r farn y bydd hyn yn gwella hygyrchedd cyfraith Cymru, ac yn helpu i alluogi mwy o gyfleoedd i graffu ar is-ddeddfwriaeth.

117. Rydym hefyd yn nodi diwygiadau'r Bil i ddeddfwriaeth bresennol fel na fydd yn ofynnol, mwyach, i orchmynion traffig ffyrdd penodol gael eu gwneud drwy offeryn statudol Cymreig, ac yn cydnabod barn Llywodraeth Cymru na fydd y dull hwn yn cael effaith negyddol ar hygyrchedd cyfraith Cymru.

118. Yn ystod ein hystyriaeth o'r Bil, rydym wedi nodi materion y byddai, yn ein barn ni, yn fuddiol iddynt gael eu harchwilio ymhellach. Rydym yn trafod y rhain isod.

119. Fel rhan o'n gwaith craffu ar y Bil, buom yn ystyried a ddylai fod mecanwaith a gofyniad mewn deddfwriaeth i sicrhau bod offerynnau statudol sy'n cywiro

¹³⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [259]

deddfwriaeth ddiffygiol yn cael eu cyflwyno gan Weinidogion Cymru mewn modd amserol. Fel Pwyllgor, rydym wedi mynegi ein hanfodlonrwydd â'r nifer cynyddol o eitemau o is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru sy'n cynnwys diffygion¹³¹, ac ar wahân â'r nifer cynyddol o Filiau fframwaith a phwerau dirprwyedig o fewn Biliau¹³².

120. O ganlyniad, o ystyried y cynnydd posibl yn y defnydd o bwerau dirprwyedig gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol – a'r ffaith bod rhai eitemau o ddeddfwriaeth ddiffygiol a wnaed gan Weinidogion Cymru yn aros ar y llyfr statud am gyfnod amhenodol¹³³ – rydym o'r farn bod rheidrwydd cynyddol i sicrhau bod y gyfraith sy'n dwyn grym yn weithredol, ac os nad ydyw, yn cael ei chywiro mewn modd amserol.

121. Rydym yn cydnabod y gallai fod cyfyngiadau i unrhyw ddarpariaeth y gellir ei mewnosod yn y Bil hwn i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud offerynnau statudol sy'n cywiro o fewn amserlen benodol. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ynghylch a ellid gwneud darpariaeth ddeddfwriaethol i ddarparu ar gyfer gofyniad o'r fath. At hynny, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru – ar y lleiaf – osod adroddiad gerbron y Senedd ar adegau penodol yn nodi'r cynnydd y mae'n ei wneud tuag at gywiro offerynnau statudol y mae'n derbyn eu bod yn ddiffygiol.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid gwneud darpariaeth ddeddfwriaethol fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud offerynnau mewn modd amserol i gywiro offerynnau statudol y mae'n derbyn eu bod yn ddiffygiol, ac mewn ymateb i'r Pwyllgor, dylai nodi manylion a chanlyniad yr ystyriaeth honno.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru, bob 12 mis, osod adroddiad gerbron y Senedd yn nodi'r cynnydd y mae'n ei wneud tuag at gywiro offerynnau statudol y mae'n derbyn eu bod yn ddiffygiol.

122. Rydym hefyd o'r farn bod rhinwedd yn argymhelliad Cymdeithas Hansard – a wnaeth mewn perthynas â Senedd y DU – sef y dylai pob is-ddeddfwriaeth a osodir gael ei hystyried yn gyntaf gan bwyllgor sifftio, a fydd yn gyfrifol am benderfynu ar y lefel briodol o waith craffu ar gyfer y darn hwnnw o

¹³¹ Gweler, er enghraifft, paragraffau 10 i 20 a 94 i 96 o'n [Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/24](#), a osodwyd ym mis Tachwedd 2024.

¹³² Gweler, er enghraifft, paragraffau 27 i 35 a 97 i 101 o'n [Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/24](#).

¹³³ Gweler, er enghraifft, ein [llythyr dyddiedig 24 Medi 2024 at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig o ran Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol \(Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol\) ac Iechyd Anifeiliaid \(Diwygiadau Amrywiol\) \(Cymru\) \(Ymadael â'r UE\) 2022](#).

ddeddfwriaeth. Rydym yn cydnabod y byddai mabwysiadu'r dull hwn yn diystyru'r gweithdrefnau craffu a nodir yn y Deddfau galluogi presennol, ac y gallai hynny olygu bod gweithdrefn wahanol yn gymwys i arfer pŵer dirprwyedig i'r un a basiwyd gan y ddeddfwrfa berthnasol. Fodd bynnag, rydym o'r farn mai ei fantais yw ei botensial i gryfhau gallu'r Senedd i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

123. Rydym o'r farn y dylai cynnig ar gyfer pwyllgor sifftio fod yn destun ystyriaeth lawn a manwl cyn y gellir cyflwyno achos dros ddiwygio deddfwriaethol a gweithdrefnol. Gan ei fod yn fater sy'n ymwneud â gweithdrefn y Senedd, y Pwyllgor Busnes fyddai'n gyfrifol am fwrw ymlaen â hyn. Rydym yn cydnabod bod pwysau sylweddol ar raglen waith y Pwyllgor Busnes yn sgil y newidiadau y bydd eu hangen o ystyried y cynnydd yn nifer yr Aelodau ar gyfer y Seithfed Senedd. Serch hynny, rydym o'r farn y byddai'n fuddiol ystyried y mater hwn cyn i'r Chweched Senedd gael ei diddymu.

Argymhelliad 5. Dylai'r Pwyllgor Busnes, cyn i'r Chweched Senedd gael ei diddymu, ystyried cynnal adolygiad o rinweddau cyflwyno gweithdrefn lle y mae eitem o is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Senedd yn cael ei hystyried yn y lle cyntaf gan bwyllgor sifftio sy'n gyfrifol am benderfynu ar y lefel briodol o graffu ar gyfer y darn hwnnw o ddeddfwriaeth.

124. Buom hefyd yn ystyried a fyddai rhinwedd mewn darparu mecanwaith ar gyfer diwygio offerynnau statudol fel rhan o waith craffu'r Senedd, os dyna fyddai ewylllys y Senedd.

125. Fel y nodir gennym ym mharagraff 119, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y Biliau fframwaith a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y Senedd hon, ac ehangder y pwerau dirprwyedig sydd ynddynt. O ystyried y cynnydd cysylltiedig posibl yn nifer yr offerynnau statudol, a'r manylion polisi sylweddol y gallent eu cynnwys, rydym yn pryderu mai dim ond un o ddau ddewis sydd gan y Senedd: p'un ai i gymeradwyo, cadarnhau neu fel arall annilysu offeryn sydd o'i blaen yn ei gyfanwydd, neu beidio. At hynny, mae'n rhaid gwneud y dewis hwnnw ar ôl cyfnod cyfyngedig o amser at ddibenion gwaith craffu.

126. Rydym yn nodi diddordeb yr Aelod sy'n gyfrifol yn y cwestiwn ynghylch a ddylai fod mecanwaith i alluogi diwygio offerynnau statudol; fodd bynnag rydym, hefyd, yn cydnabod ei barn nad y Bil hwn yw'r lle iawn i gyflwyno mecanwaith o'r fath.

127. Rydym yn cydnabod yn yr un modd, y dystiolaeth a glywsom a oedd yn nodi goblygiadau ymarferol a chyfreithiol posibl, yn enwedig y pryder y byddai diwygio offeryn statudol gan y ddeddfwrfa'n peri dryswch o ran pwy sydd, wedyn, yn

atebol am y ddeddfwriaeth honno. At hynny, rydym yn ymwybodol y byddai diwygio offeryn statudol yn groes i benderfyniad i ddirprwyo pŵer i Weinidogion Cymru i wneud yr offeryn hwnnw.

128. Fodd bynnag, rydym o'r farn – o ystyried enghreifftiau mewn deddfwriaeth arall¹³⁴ a hefyd ddeddfwriaeth o awdurdodaethau eraill, megis Awstralia¹³⁵ – y dylid rhoi ystyriaeth bellach i alluogi darpariaethau unigol mewn offerynnau statudol i gael eu hannylsu yn dilyn penderfyniad gan y Senedd, ac yn fwy eang, rinweddau neu fel arall galluogi offerynnau statudol i gael eu diwygio gan y Senedd. Rydym o'r farn y dylai unrhyw gynigion ar gyfer newid o'r fath fod yn destun ystyriaeth lawn a manwl eto, cyn y gellir cyflwyno achos dros ddiwygio deddfwriaethol a gweithdrefnol.

129. Rydym o'r farn bod rhinwedd, hefyd i'r dull amgen a awgrymir inni – y dylai cynigion i gymeradwyo offerynnau statudol yn lle hynny fod yn ddiwygiadwy er mwyn galluogi'r Senedd i fynegi ei dymuniad i un neu ragor o elfennau offeryn gael eu newid. Mae gweithdrefn o'r fath wedi'i disgrifio gan Gymdeithas Hansard fel cynigion i ailfeddwl.¹³⁶

130. Yn ein barn ni, byddai'n fuddiol dilyn yr opsiwn hwn cyn gynted â phosibl. Mae hwn yn fater arall sy'n ymwneud â gweithdrefn y Senedd, ac, o'r herwydd, y Pwyllgor Busnes fyddai'n gyfrifol am fwrw ymlaen â hyn. Rydym eisoes wedi nodi'r pwysau sylweddol ar raglen waith y Pwyllgor Busnes; serch hynny, rydym o'r farn y byddai'n fuddiol mynd ar drywydd y mater hwn cyn i'r Chweched Senedd gael ei diddymu.

Argymhelliad 6. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried cyflwyno gweithdrefn i ganiatáu ar gyfer cynigion 'ailfeddwl' y gellir eu diwygio i offerynnau statudol cyn diddymu'r Chweched Senedd.

¹³⁴ Adran 27(3) o *Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004*, ac adran 1(2) o *Ddeddf y Cyfrifiad 1920*

¹³⁵ Mae **Adran 42 o Ddeddf Deddfwriaeth 2003** yn darparu mecanwaith i offeryn deddfwriaethol, neu ddarpariaeth mewn offeryn deddfwriaethol gael ei wrthod, a'i diddymu yn dilyn hynny.

¹³⁶ Cymdeithas Hansard, *Proposals for a New System for Delegated Legislation: A Working Paper*, 6 Chwefror 2023

5. Cyhoeddi deddfwriaeth Cymru

131. Mae Rhan 2 o'r Bil yn mewnosod Rhan newydd 2B yn Neddf 2019, sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â chyhoeddi, cadw, rhifo a dosbarthu Deddfau Senedd Cymru, offerynnau statudol Cymreig ac is-ddeddfwriaeth arall a wneir gan Weinidogion Cymru.

Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru

132. Mae Rhan newydd 2B yn rhoi swyddogaethau i Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin mewn perthynas â'r materion hyn, ond – fel y darperir gan adran newydd 37I – wrth arfer y swyddogaethau hyn, mae Argraffydd y Brenin i'w adnabod fel Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

133. Mewn cyferbyniad â darpariaethau yn *Neddf yr Alban 1998* a *Deddf yr Alban 2010*, nid yw'r Bil yn darparu ar gyfer creu Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru fel rôl ar wahân i rôl Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin. Pan ofynnwyd iddi egluro'r dull hwn, dywedodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol:

*“Mae e'n rhywbeth efallai dylai wedi cael ei wneud yn 1998, yn y Ddeddf wreiddiol, ac yn sicr yn 2006, ond, am wahanol resymau, gafodd e ddim ei wneud. Felly, beth mae'r Bil yma'n ei wneud, mae e'n troedio llwybr gofalus rhwng trio peidio â chreu gweinyddiaeth sydd ddim wir ei hangen arnom ni. Achos y realiti yw, er bod yna Argraffydd Brenhinol i'r Alban a Government Printer for Northern Ireland—felly, mae yna derminoleg wahanol ar gyfer Gogledd Iwerddon, am resymau efallai y gallwn ni i gyd weithio mas—yr un person yw'r bobl yma. Felly, yr Archifau Gwladol sy'n gyfrifol, a beth yn ni'n ei wneud trwy'r Bil yw rhoi statws i ddeddfwriaeth Cymru a statws i'r rôl o argraffu deddfwriaeth Cymru ...”*¹³⁷

134. At hynny, darparodd y swyddog fanylion pellach ynglŷn â pham mae'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu yn y Bil:

“... the King's Printer for Scotland and so on are all the same person, so that's the starting point. There's a King's Printer for Scotland because there was a King's Printer provided for in the Scotland Act 1998, and then the Scots also have a piece of

¹³⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [183]

legislation from 2010 that is similar to what we have here. So, what we've sought to do in relation to Wales is, first of all, to say that the person who does this does so in the name of the King's Printer for Wales, and then it fills certain gaps that we had in relation to the King's Printer. So, there's the King's Printer of Acts of Parliament, who's the original, if you like, and some of the older legislation refers to the King's Printer and what the King's Printer has to do in relation to Wales. So, we've plugged some of those gaps—quite technical things.”¹³⁸

135. Pan ofynnwyd a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i greu Argraffydd y Brenin ar wahân i Gymru, gyda'i swyddfa benodol ei hun, dywedodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol wrthym nad oedd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, ac ymhelaethodd fel a ganlyn:

“... mae yna un llyfr statud i'r Deyrnas Unedig, i bob pwrpas. Felly, er bod gennym ni ein pwerau ni lawr fan hyn—ac mae'r Alban yn wahanol hefyd—mae popeth yn cyfuno mewn un pan fo'n dod i ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig. Felly, mae yna un wefan lle mae popeth yn cael ei gyhoeddi, a'r Archifau Gwladol sy'n gyfrifol am hynny. Felly, byddai'n anghymesur, dwi'n meddwl, pe baem ni'n trio gwneud y pethau yma i Gymru yn unig.”¹³⁹

136. Dywedodd Prif Weithredwr a Cheidwad yr Archifau Gwladol, ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin, Saul Nassé, wrthym ynghylch y Bil:

“It both captures and consolidates what is our [the National Archives'] current practice but also gives an ability to move forward and modernise in the future. It puts clear lines of responsibility on me, as King's Printer, accountability for publishing Acts of the Senedd, setting up a discrete series of Welsh statutory instruments, and a duty on us—and this is the first time that it's been listed as a duty anywhere in the UK—to keep legislation up to date as well, and to be digital by default.

... The new Bill puts digital at the forefront of what we're doing, which is great, because that is what users want and what we deliver. It also gives us the flexibility as those behaviours move

¹³⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [263]

¹³⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [182]

on to publish less in print in the future, which is probably the way that things will go."¹⁴⁰

137. O ran y modd y mae darpariaethau'r Bil yn cymharu â'r rheini sydd yn *Neddf yr Alban 1998* a *Deddf yr Alban 2010*, dywedodd Mr Nassé wrthym:

*"The way this Bill works is that the responsibilities that I will have as King's Printer for publishing Welsh legislation will be badged as the King's Printer for Wales, but there won't be a separate office set up in the same way [as for Scotland]. But the practicalities of how it lands for the user are the same; the law in both languages will land on the website and be available for users."*¹⁴¹

138. Pan ofynnwyd iddo egluro, yn ymarferol, i ba raddau y mae'r trefniadau ar gyfer yr Alban a'r trefniadau a ddarperir yn y Bil yn wahanol, dywedodd John Sheridan, Cyfarwyddwr Digidol yr Archifau Gwladol:

*"... the practicality is that this will make no difference, so legislation will be registered and numbered, Welsh statutory instruments in their own series, published with the imprint by the King's Printer for Wales, and so there's no practical difference in terms of what is happening and what the public sees under this Bill for Wales as to the practical arrangements for Scotland. The legal arrangements are different, because this Bill has a different construction, but the practical arrangements are equivalent."*¹⁴²

139. Mae adrannau newydd 37J i 37M o *Ddeddf 2019*, fel y'u mewnosodir gan y Bil, yn ailddatgan darpariaethau mewn perthynas â rhifo *Deddfau Senedd Cymru*, printiau swyddogol a chopïau ardystiedig o'r *Deddfau hynny*, a'u cadw a'u cyhoeddi; darpariaethau a nodir ar hyn o bryd yn adran 115 o *Ddeddf 2006*. Yn unol â hynny, mae paragraff 5 o Atodlen 3 i'r Bil yn diddymu'r darpariaethau hynny yn *Neddf 2006*.

140. Mae adran 37M, yn benodol, yn darparu bod rhaid i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi'r copi ardystiedig o brint swyddogol *Deddf*, a rhaid iddo

¹⁴⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [123] a [125]

¹⁴¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [139]

¹⁴² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [142]

hefyd gyhoeddi dogfennau sy'n ymwneud â'r Ddeddf os gofynnir iddo wneud hynny naill ai gan Clerc y Senedd neu Weinidogion Cymru; rhwymedigaeth nad oes darpariaeth benodol ar ei chyfer mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd.

141. Mae adrannau newydd 37N i 37S o Ddeddf 2019, fel y'u mewnosodir gan y Bil, yn nodi'r gofynion ar gyfer rhifo, dosbarthu, cyhoeddi a chadw offerynnau statudol Cymreig.¹⁴³

142. Yn benodol, mae adran newydd 37P yn ei gwneud yn ofynnol i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru rifo offerynnau statudol o'r fath yn olynol, gan gychwyn ar ddechrau pob blwyddyn galendr, sy'n dilyn y dull a fabwysiedir ar hyn o bryd ar gyfer offerynnau statudol a deddfwriaeth arall.

143. Mae'r Memorandwm yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu dod â Rhan newydd 2A o Ddeddf 2019 – sy'n cynnwys adran newydd 37P – i rym ar 1 Ionawr 2026.¹⁴⁴ Pan ofynnwyd iddi egluro'r dewis hwn o ddyddiad, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym:

"... the date is just so the sequence of numbering starts for a calendar year, so you'll be able to say that for the year 2026, that's the first year in which there's a Welsh statutory instrument with that number, so it's just a really straightforward begin-at-the-beginning provision."¹⁴⁵

144. At hynny, dywedodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol, ar ôl ymgynghori â'r Archifau Gwladol:

"... they were very clear that part way through commencement would be difficult because of the series, so ... that's the main reason that the National Archives were quite clear that they wanted a 1 January start."¹⁴⁶

145. Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd Prif Weithredwr a Cheidwad yr Archifau Gwladol, Saul Nassé, nad oedd yr Archifau Gwladol yn rhagweld y byddai cyfres ar

¹⁴³ O ganlyniad i Ran 1 o'r Bil hwn, bydd is-ddeddfwriaeth a wneir gan awdurdod cyfrifol, sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru, yn cael ei gwneud fel offeryn statudol Cymreig, yn hytrach nag fel offeryn statudol y mae Deddf 1946 yn gymwys iddo.

¹⁴⁴ Y Memorandwm, Tabl 2

¹⁴⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [201]

¹⁴⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [203]

wahân ar gyfer offerynnau statudol Cymreig yn peri unrhyw broblemau, a'u bod ar y trywydd iawn i gyflawni'r newid hwn erbyn 1 Ionawr 2026.¹⁴⁷

146. Mae adran 37T yn gwneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi offerynnau statudol Cymreig drafft, ac mae adran 37U yn ei gwneud yn ofynnol i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi tablau, ar-lein, sy'n dangos yr effeithiau a wneir i ddeddfiadau gan Ddeddfau'r Senedd neu offerynnau statudol Cymreig.

147. Mae adran 37V yn ei gwneud yn ofynnol i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi deddfwriaeth Cymru ar-lein fel y'i diwygiwyd gan unrhyw ddeddfiad arall. At hynny, rhaid iddo, cyn belled ag y bo'n ymarferol, gyflawni'r ddyletswydd hon o'r amser y daw diwygiad i rym. Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol mai'r ddarpariaeth hon fydd y ddarpariaeth gyntaf yn y DU sy'n ei gwneud yn ofynnol mewn gwirionedd i rywun gyhoeddi deddfwriaeth ar ffurf gyfredol, er bod darpariaeth o'r fath, meddai, yn eithaf cyffredin mewn awdurdodaethau eraill, megis Awstralia, Seland Newydd a Chanada.¹⁴⁸

148. Pan ofynnwyd a yw'r Archifau Gwladol yn gallu cyflawni'r ddyletswydd o fewn adran 37V, dywedodd eu Cyfarwyddwr Digidol, John Sheridan, wrthym:

"... we're really confident that we've got the capacity to meet that obligation. We know from our research with users that it's the single-biggest user need. People really need to read the text of the legislation as it has been amended. We've had capacity to both bring primary and then secondary legislation increasingly up to date. We have more than enough capacity to keep up to date, and sufficient capacity to bring the remaining legislation that isn't currently up to date that applies to Wales up to date ahead of that provision coming into force. So, we're very confident. I wouldn't underestimate the importance of that provision, ultimately, for the people of Wales, in terms of giving them a legal assurance that the form of the legislation that we know that they most need is going to be available to them."¹⁴⁹

149. Mae adran 37Z yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i rifo, dosbarthu a chyhoeddi ar-lein yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir ganddynt pan nad yw ar ffurf offeryn statudol Cymreig. Nid yw adran 37Z yn manylu ar y trefniadau ar gyfer rhifo

¹⁴⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [128]

¹⁴⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [264]

¹⁴⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [131]

a dosbarthu is-ddeddfwriaeth, ond yn hytrach mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi penderfyniad ar y trefniadau hyn.

150. Mewn gohebiaeth, gofynnwyd i'r Aelod sy'n gyfrifol amlinellu'n fanylach sut y byddai adran 37Z(2) yn gweithredu'n ymarferol. Mewn ymateb, ysgrifennodd hi atom fel a ganlyn:

“Wrth ddatblygu'r Rhan 2B newydd ceisiwyd sicrhau ein bod yn gwneud darpariaeth gyfatebol pan fo agweddau penodol ar gyhoeddi yn effeithio ar Ddeddfau ac offerynnau statudol Cymreig fel ei gilydd. Er enghraifft, mae adran 37J yn ymdrin â rhifo Deddfau ac mae adran 37P yn gwneud trefniadau cyfatebol ar gyfer offerynnau. Yn yr un modd, rydym wedi ceisio sicrhau bod trefniadau cyfatebol yn bodoli ar gyfer cyhoeddi a chadw.

Gan na chaiff is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ar ffurf heblaw offeryn statudol Cymreig ei chyhoeddi gan neu ar ran Argraffydd y Brenin, nid ydym wedi cynnwys y trefniadau manwl ar gyfer cyhoeddi'r ddeddfwriaeth hon yn y Bil/Rhan 2B. Yn hytrach, fel y nodwyd gan eich Pwyllgor, mae'r adran 37Z(2) newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi penderfyniad ar faterion o'r fath.

Rwy'n disgwyl i'r penderfyniad nodi'r gofynion manwl y bydd swyddogion yn eu dilyn wrth drefnu i gyhoeddi. Felly bydd angen iddo amlinellu sut y bwriedir rhifo – er enghraifft, bod cyfres newydd i gychwyn bob blwyddyn galendr, lleoliad y rhif ar wahanol fathau o is-ddeddfwriaeth, etc. Bydd hefyd yn nodi sut y mae is-ddeddfwriaeth o'r fath i gael ei dosbarthu. Er enghraifft, yn ôl pwnc ac os felly, a yw pennawd pwnc i'w gofnodi ar yr is-ddeddfwriaeth ac a yw hyn yn ffurfio rhan o gofrestr o is-ddeddfwriaeth ai peidio.

Y bwriad cyffredinol yw bod pob is-ddeddfwriaeth yn cael ei chyhoeddi wrth ei gwneud. Pan fo deddfwriaeth wedi ei disodli (er enghraifft, os yw Cod Ymarfer wedi ei ddiweddarau), y drefn ar hyn o bryd yw, os yw fersiwn flaenorol yn cael ei disodli ac nad yw ar wefan y Llywodraeth, dangosir cyfeiriad ati a bydd ar gael os gofynnir amdani. I gefnogi'r uchelgais hwn o ran cyhoeddi mae angen cadw cofnod llawn, a sicrhau bod modd

adnabod darnau unigol o ddeddfwriaeth (drwy rifo a dosbarthu).

Bydd y penderfyniad yn bwynt cyfeirio eglur er mwyn cryfhau ein dull o gyhoeddi is-ddeddfwriaeth.”¹⁵⁰

151. At hynny, mae Rhan newydd 2B o Ddeddf 2019 yn ailddatgan swyddogaethau Clerc y Senedd sydd wedi’u nodi ar hyn o bryd yn adrannau 115(5A) i 115(5E) o Ddeddf 2006. Mae Deddf 2006, yn enwedig adran 26, yn darparu’n benodol bod Clerc y Senedd i’w adnabod naill ai wrth y teitl “Clerk of the Senedd”, neu fel “Clerc y Senedd”, neu wrth unrhyw deitl arall a ddarperir yn Rheolau Sefydlog y Senedd.

152. Fel y dywedir ym mharagraff 68, dywedodd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, Manon Antoniazzi, wrthym ei bod yn fodlon nad yw ailddatgan y swyddogaethau hyn yn newid y broses na’r gweithdrefnau y mae’n rhaid i’r Clerc eu dilyn.

153. Fodd bynnag, nododd Manon Antoniazzi hefyd fod y darpariaethau yn Rhan newydd 2B yn cyfeirio at “Glerc Senedd Cymru”, nad yw’n cyd-fynd â’r cyfeiriadau yn Deddf 2006. Pan ofynnwyd iddi am y mater hwn, dywedodd yr Aelod sy’n gyfrifol wrthym, oherwydd bod y Bil yn cyfeirio at Senedd Cymru, y defnyddiwyd y geiriad “Clerc Senedd Cymru” er mwyn dilyn y patrwm hwnnw. Fodd bynnag, dywedodd yr Aelod sy’n gyfrifol, os yw’r Clerc yn teimlo’n gryf am y mater hwn, y byddai Llywodraeth Cymru yn fodlon diwygio’r Bil yn unol â hynny.¹⁵¹

Goblygiadau ariannol

154. Mae Rhan 4 o’r Memorandwm yn nodi, yn asesiad Llywodraeth Cymru, nad oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil (naill ai yn Rhan 1 neu 2 neu yn ei gyfanrwydd) sy’n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.¹⁵²

155. Fodd bynnag, mae’r Memorandwm yn cydnabod y bydd costau trosiannol o £45,000 o ganlyniad i’r Bil, y mae’n nodi y bydd yr Archifau Gwladol yn mynd iddynt. Mae’r costau hyn yn ymwneud â newidiadau angenrheidiol i system gyhoeddi’r Archifau Gwladol a gwefan legislation.gov.uk i adlewyrchu offerynnau statudol Cymru.¹⁵³

¹⁵⁰ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni, 29 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 4

¹⁵¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [55]

¹⁵² Y Memorandwm, paragraff 86

¹⁵³ Y Memorandwm, Tabl 4

156. Cadarnhaodd Prif Weithredwr a Cheidwad yr Archifau Gwladol, Saul Nassé, gywirdeb y ffigwr hwn, a chadarnhaodd y byddai'n gost i'r Archifau Gwladol.¹⁵⁴

157. At hynny, mae'r Memorandwm yn nodi y cyflawnir arbedion cost rheolaidd i Lywodraeth Cymru o £11,500 y flwyddyn drwy'r newidiadau arfaethedig i orchmynion traffig ffyrdd dros dro.¹⁵⁵

Fformat printiedig dwy golofn ar gyfer offerynnau statudol

158. O fewn ei rhaglen hygyrchedd cyfraith Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i "archwilio ffyrdd o symud draw o fodel cyhoeddi deddfwriaeth yr 20fed ganrif, sy'n seiliedig ar fersiynau print, i system ddigidol fodern." Mae wedi datgan y bydd y dull hwn "yn cynnwys ystyried datrysiadau technolegol ar gyfer gweld a dehongli deddfwriaeth ddwyieithog a symud i ffwrdd o fformat brint, colofn ddeuol Offerynnau Statudol."¹⁵⁶

159. Mae'r Memorandwm yn cyfeirio at yr ymrwymiad hwn, ac yn nodi y disgwylir mai un o fanteision newid o'r fath fydd "lleihad (os nad diwedd o bosibl) ar gostau'r taliadau cysodi sy'n disgyn i Lywodraeth Cymru".¹⁵⁷

160. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol esbonio pam yr oedd y dull hwn yn cael ei fabwysiadu. Cyfeiriodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol at y problemau ymarferol a wynebwyd gan ddrafftwy'r Llywodraeth Cymru wrth baratoi deddfwriaeth mewn fformat dwy golofn¹⁵⁸, ac fe gafwyd manylion pellach gan swyddog arall, fel a ganlyn:

"The cost is an interesting point. To produce a Welsh statutory instrument costs the Welsh Government significantly more than an equivalent would cost for the Scottish Government, the Northern Ireland Executive or the UK Government. The standard cost is set out in the explanatory memorandum, but the standard cost per instrument is £320. But for a Welsh statutory instrument, we then pay on top of that £16.75 per page. So if you look at a 100-page instrument—which isn't common, but it's not so unusual—you're looking at a significant cost to produce that instrument, whereas the same instrument

¹⁵⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [133] a [135]

¹⁵⁵ Y Memorandwm, Tabl 4

¹⁵⁶ Llywodraeth Cymru, [Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026](#), Ionawr 2024, paragraff 28c

¹⁵⁷ Y Memorandwm, paragraff 124

¹⁵⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [266]

doesn't cost that money to the Scottish Government, for example; it would still cost them £320. It's all to do with the process that the National Archives and the publication concessionaire have to go through to combine that instrument to a print. And then if you look at the number of sales of those instruments, the cost-benefit is not there at all.

So, we do want to move away from the dual-column format. The National Archives are equally keen to make to move away from the dual-column format and we want to find a format that reflects, really, how people access legislation now. That's the engagement we're having, and the National Archives are going to do some user research, I think later this month [November 2024], that considers how users access legislation in both languages, how they can be certain what they're seeing is the correct version, and that's going to inform the next steps on moving away from the dual-column format.”¹⁵⁹

161. At hynny, ar y mater hwn, dywedodd Mr Nassé:

“One of the things that we want to look at there is how we evolve the presentation of English and Welsh language. We have had this kind of dual-column format, which very much derives from the print era, where you need to see the two things alongside each other. We think that users now would much prefer to be able to toggle between one and the other, but we won't make that decision without engaging with users and getting the insights that let us be sure that that's right.”¹⁶⁰

Ein barn ni

162. Fel y nodwn ym Mhennod 3, rydym yn croesawu'r darpariaethau yn y Bil mewn perthynas ag Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru, a hefyd yn croesawu'r swyddogaethau newydd a fydd yn cael eu gosod ar y rôl honno, yn enwedig y ddyletswydd newydd yn adran 37V i gyhoeddi deddfwriaeth Cymru ar ffurf gyfredol. Mae'n dda gennym nodi bod yr Archifau Gwladol yn hyderus y bydd yn gallu cyflawni'r ddyletswydd hon.

¹⁵⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [267] i [268]

¹⁶⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [163]

163. Fodd bynnag, mae gennym rai amheuon ynghylch y dull cyffredinol o osod y cyfrifoldebau hyn ar Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin – dull sy'n wahanol i'r un a ddefnyddir yn *Neddf yr Alban 1998* a *Deddf yr Alban 2010*. Mae barn yr Archifau Gwladol yn tawelu ein meddwl na fydd y gwahanol ddulliau gweithredu hyn yn arwain at unrhyw wahaniaethau ymarferol ynghylch sut y caiff y cyfrifoldebau hyn eu cyflawni yng Nghymru a'r Alban. Yn hynny o beth, mae'n aneglur i ni pam nad yw'r darpariaethau yn y Bil yn adlewyrchu'r rheini yn *Neddf yr Alban 1998* a *Deddf yr Alban 2010*: byddai'r dull hwn yn darparu ar gyfer creu Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru fel rôl ar wahân i rôl Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin.

164. Rydym o'r farn y byddai creu rôl ar wahân i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru – yn hytrach na gosod swyddogaethau penodol ar Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin – yn sicrhau cydraddoldeb â threfniadau cyfreithiol mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, ac yn dal i alluogi'r rôl honno i gael ei chyflawni gan Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin, fel y darperir gan y Bil. Am y rhesymau hyn, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam y cafodd dull gweithredu sy'n adlewyrchu'r darpariaethau yn *Neddf yr Alban 1998* a *Deddf yr Alban 2010* ei ddiystyru.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw darpariaethau'r Bil mewn perthynas ag Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru yn adlewyrchu'r trefniadau a nodir yn *Neddf yr Alban 1998* a *Deddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010*, lle y mae Argraffydd y Brenin ar gyfer yr Alban yn bodoli fel rôl ar wahân i rôl Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu asesiad o unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o adlewyrchu'r trefniadau a nodir yn *Neddf yr Alban 1998* a *Deddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010*, lle y mae Argraffydd y Brenin ar gyfer yr Alban yn bodoli fel rôl ar wahân i rôl Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin.

165. Nodwn fod y Bil yn cyfeirio at Glerc Senedd Cymru yn hytrach na Chlerc y Senedd. Rydym yn cytuno â'r farn a fynegwyd wrthym gan y Clerc nad yw'r darpariaethau hyn yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn *Neddf 2006* sy'n datgan yn benodol fod y swydd i'w hadnabod fel "Clerk of the Senedd", fel "Clerc y Senedd", neu wrth unrhyw deitl arall a ddarperir yn rheolau sefydlog y Senedd. Am y rhesymau hyn, credwn y dylid diwygio'r Bil yn unol â hynny.

Argymhelliad 9. Dylid diwygio'r Bil i roi "Clerc y Senedd" yn lle'r cyfeiriadau at "Clerc Senedd Cymru", yn unol ag adran 26(2) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

166. Nodwn oblygiadau ariannol y Rhan hon o'r Bil, fel y darperir gan Lywodraeth Cymru yn y Memorandwm, ac yn nodi bod yr Archifau Gwladol wedi cadarnhau cywirdeb y ffigurau a ddarparwyd mewn perthynas â'r costau sydd i'w hysgwyddo.

167. Yn olaf, nodwn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i archwilio ffyrdd o symud o'r hyn a elwir yn fformat dwy golofn ar gyfer offerynnau statudol, a'r rhesymau dros hynny. At hynny, nodwn gefnogaeth yr Archifau Gwladol, mewn egwyddor, i'r cynnig hwn, yn amodol ar ymgysylltu â defnyddwyr deddfwriaeth.

168. O ystyried effaith bosibl unrhyw benderfyniad i symud oddi wrth y fformat dwy golofn ar y Gymraeg, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru nodi ei hasesiad o'r effeithiau posibl hyn, a chadarnhau a yw wedi ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa asesiad y mae wedi'i wneud o effaith ei phenderfyniad arfaethedig i symud i ffwrdd o'r fformat dwy golofn ar gyfer offerynnau statudol Cymreig ar y Gymraeg; a dylai gadarnhau a yw wedi ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar y cynnig hwn.

6. Diddymu Deddfwriaeth Cymru

169. Mae Rhan 3 o'r Bil yn cyflwyno diddymiadau a diwygiadau i ddarpariaethau nad ydynt bellach yn cael eu hystyried o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd mwyach. Mae'r Rhan hon – yn benodol adran 4 – yn cyflwyno Atodlen 3 sy'n cynnwys y diddymiadau a'r diwygiadau hyn.

Diddymu a diwygio darpariaethau mewn cyfraith cynllunio

170. Mae'r Bil yn diddymu ac yn diwygio darpariaethau sy'n ymwneud â materion amrywiol ym maes cyfraith cynllunio, gan gynnwys Byrddau Datblygu Gwledig, ardaloedd menter ac ymddiriedolaethau gweithredu tai. Mewn perthynas â'r darpariaethau hyn, mae'r Memorandwm yn nodi:

“Rhoddwyd ystyriaeth neilltuol i ddileu darpariaethau diangen penodol mewn deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â'r system gynllunio, neu sy'n gysylltiedig â'r system honno. Gwnaed hyn oherwydd mai un o'r prosiectau allweddol yn rhaglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yw mynd i'r afael â chymhlethdodau ac aneffeithlonrwydd y gyfraith cynllunio yng Nghymru. Bydd y Llywodraeth, yn ystod tymor y Senedd hon, yn cyflwyno Bil cydgrynhoi i symleiddio a moderneiddio'r gyfraith cynllunio yng Nghymru. Mae'r angen am y Bil yn hirsefydledig, fel y dangoswyd yn glir pan ddaeth adroddiad Comisiwn y Gyfraith, Cyfraith Cynllunio yng Nghymru¹⁶¹, i'r casgliad ei fod yn faes o'r gyfraith y mae angen rhoi sylw iddo ar fyrder. Tynnodd ei adroddiad sylw at yr effeithiau niweidiol y mae diffyg hygyrchedd, ansawdd a chymhlethdod y gyfraith yn eu cael ar weithrediad y system gynllunio – canfyddiadau sydd wedi eu derbyn gan y Llywodraeth.

Bydd mynd i'r afael â rhai o'r darpariaethau cynllunio diangen yn y Bil hwn yn golygu y bydd yn bosibl i rywfaint o'r gwaith o dacluso'r llyfr statud o ran cynllunio fynd rhagddo yn gynharach nag a fyddai'n digwydd fel arall, a bydd hefyd yn osgoi cynnwys darpariaethau ynghylch y diddymiadau hynny yn y Bil Cynllunio. Bwriad y Llywodraeth yw y bydd y Bil Cynllunio yn sefyll fel y datganiad o sylwedd ar y gyfraith cynllunio yng

¹⁶¹ Comisiwn y Gyfraith, [Prosiect: Cyfraith Cynllunio yng Nghymru](#)

*Nghymru, ac ni fydd darpariaethau a ddisbyddwyd, sy'n ddiangen neu sy'n ddarfodedig ond yn ychwanegu at hyd a chymhlethdod y Bil hwnnw.*¹⁶²

171. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym fod y dull a ddefnyddir yn baratoadol ar gyfer y Ddeddf cydgrynhoi, a bod y Bil yn manteisio ar y cyfle i gael gwared ar rai o'r darpariaethau anarferedig cyn cydgrynhoi.¹⁶³ At hynny, cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol i ni y byddai'r Bil cydgrynhoi o dan sylw yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn 2025.¹⁶⁴

Diddymu Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011

172. Mae'r Bil, ym mharagraff 26 o Atodlen 3, hefyd yn diddymu yn ei gyfanrwydd *Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011* (y Mesur). Mae'r Memorandwm yn nodi mewn perthynas â'r diddymiad hwn:

"Cyflwynwyd Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) i Cynulliad Cenedlaethol Cymru (ar y pryd) gan Ann Jones AC yn dilyn ei hymgyrch i wella diogelwch tân a lleihau nifer yr achosion o farwolaeth ac anafiadau mewn lleoliadau preswyl. Cyflwynodd y Mesur ofynion newydd ar gyfer cynnwys systemau awtomatig i lethu tân (y cyfeirir atynt fel arfer fel systemau chwistrellu) ym mhob preswylfa newydd a phob preswylfa sydd wedi ei throsi yng Nghymru. Adeg cyflwyno'r Mesur, cyfrifoldeb Llywodraeth y DU oedd rheoli adeiladau, gan gynnwys y Rheoliadau Adeiladu (y brif ffordd o sicrhau cydymffurfiaid â safonau adeiladu). Felly, bernid mai'r Mesur oedd y mecanwaith deddfwriaethol mwyaf effeithiol a oedd ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y pryd i'w gwneud yn ofynnol gosod systemau chwistrellu ar gyfer tân mewn adeiladau newydd ac addasiadau.

Pasiwyd y Mesur gan y Cynulliad Cenedlaethol a rhoddwyd cyfnod gweithredu ar waith i alluogi'r sectorau adeiladu a thai i baratoi ar gyfer y newid hwn o ran gofynion. Yn ystod y cyfnod hwnnw cafodd cyfrifoldeb dros y system rheoli adeiladu ei ddatganoli i Weinidogion Cymru. Yn dilyn ymgynghoriad ar roi

¹⁶² Y Memorandwm, paragraffau 38 i 39

¹⁶³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [272]

¹⁶⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [274]

Mesur 2011 ar waith, ac am fod Gweinidogion Cymru bellach yn gallu gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau Adeiladu, dim ond adran 1 o Fesur 2011 a ddaeth i rym yn y pen draw. Mae'r defnydd o'r Rheoliadau Adeiladu (a'r Dogfennau Cymeradwy cysylltiedig) i sicrhau bod systemau awtomatig i lethu tân yn cael eu gosod yn parhau hyd heddiw.”¹⁶⁵

173. At hynny, eglurodd yr Aelod sy'n gyfrifol wrthym, mewn tystiolaeth lafar, pam mae'r Bil yn darparu ar gyfer diddymu'r Mesur:

“... the current building regulations completely supersede the Measure, really, and there was one last bit that was to do with sprinklers in care homes that has just gone through, so it basically now doesn't do anything. I have to pay tribute to Ann Jones, who fought tooth and nail to get this through, and it was very innovative at the time, but it's been superseded by the building regulations, which have basically caught up, if you like. So, it doesn't make any sense to have them in two separate places, and, again, if you're looking ... for enforcement and so on, you want it in one place.”¹⁶⁶

174. At hynny, mae'r Memorandwm yn nodi nad ymgynghorwyd ar y diddymiad hwn fel rhan o ymgynghoriad 2022. Fodd bynnag, aiff ymlaen i ddweud:

“... bu ymgynghoriad ar wahân yn ystyried cynigion i ddiwygio'r Rheoliadau Adeiladu i wneud mesurau awtomatig ar gyfer llethu tân yn ofynnol mewn cartrefi gofal i blant. I'r graddau y gallai unrhyw fylchau gael eu gadael ar ôl diddymu'r Mesur hwn, byddai'r bylchau hynny'n cael eu llenwi gan y newid arfaethedig i'r Rheoliadau Adeiladu. Yng ngoleuni'r ymgynghoriad hwnnw gwnaed diwygiadau i'r Rheoliadau Adeiladu gan Reoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2024(OS 2024/742 (Cy. 103)). O ganlyniad, yn hytrach nag aros am Fil sy'n ymdrin â'r pwnc hwn, mae'n briodol defnyddio'r Bil hwn i ddiddymu Mesur 2011, yn llawn. Mae Rhan 7 o Atodlen 1 i'r Bil yn diddymu Mesur 2011. Nid oeddem o'r farn fod angen

¹⁶⁵ Y Memorandwm, paragraffau 70 a 71

¹⁶⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [289] a [291]

*ymgyngori ymhellach ynglŷn â diddymu Mesur 2011 (y tu hwnt i'r ddau ymgynghoriad i ddiwygio'r Rheoliadau Adeiladu)."*¹⁶⁷

175. Gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol, mewn gohebiaeth, ddarparu amlinelliad o unrhyw ymgynghori pellach a gynhaliwyd mewn perthynas â'r diddymiad arfaethedig hwn. Mewn ymateb, ysgrifennodd hi atom fel a ganlyn:

"Caiff y gofynion ar gyfer gosod systemau atal tân eu nodi yn y Rheoliadau Adeiladu ac yn bwysicach na hynny, eu gorfodi drwyddynt. Nid oedd hyn yn wir pan gyflwynwyd y Mesur. Yr ymgynghoriad diweddaraf ynghylch systemau chwistrellu mewn cartrefi gofal oedd y cam olaf o ran sicrhau bod y Rheoliadau Adeiladu yn adlewyrchu pob agwedd y gallai'r Mesur fod wedi ei gynnwys.

*O ganlyniad, nid oedd y Llywodraeth o'r farn fod angen cynnal ymgynghoriad ar wahân i sefydlu a oedd angen cadw unrhyw agwedd o'r Mesur, ac mae wedi ei gynnwys yn y Bil yn awr ar gyfer ei ddiddymu."*¹⁶⁸

176. At hynny, gwnaethom ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol ddarparu asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau symud gofynion systemau chwistrellu o ddeddfwriaeth sylfaenol i is-ddeddfwriaeth. Mewn ymateb, ysgrifennodd hi atom fel a ganlyn:

"Mae'r gofynion ar gyfer systemau atal tân eisoes yn y Rheoliadau Adeiladu, ac nid yw'r Bil hwn yn newid hynny. Pan gynhwysodd y Llywodraeth y gofynion yn y Rheoliadau hynny yn 2013, ystyriwyd bod hyn yn gam pwysig ymlaen. Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn helpu i sicrhau bod adeiladau newydd, trosiadau, gwaith adnewyddu ac estyniadau yn ddiogel, yn iach, ac yn perfformio'n dda. Maent hefyd yn darparu trefniadau ar gyfer cydymffurfio a gorfodi. Fe'u hategir gan gyfres o Ddogfennau Cymeradwy. O ganlyniad mae'r rheini sy'n ymwneud ag adeiladu ac adnewyddu adeiladau yn edrych mewn un lle i weld y gofynion cymwys. Nid oes angen iddynt chwilio am ddarn arall o ddeddfwriaeth i ymdrin ag un

¹⁶⁷ Y Memorandwm, paragraff 72

¹⁶⁸ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 29 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 8, pwynt bwled cyntaf

agwedd benodol. Dyma'r egwyddor rydym yn ei dilyn ar gyfer cydgrynhoi yn fwy cyffredinol.

O ystyried bod y Rheoliadau Adeiladu eisoes yn ymdrin â'r gofynion o ran systemau chwistrellu, ac mai'r Rheoliadau sy'n weithredol yn ymarferol, nid wyf o'r farn fod unrhyw effaith andwyol o ddiddymu'r Mesur yn awr. Mae'r diddymiad yn dileu deddfwriaeth sylfaenol nad yw o ddefnydd na budd ymarferol mwyach.”¹⁶⁹

177. At hynny, cawsom gadarnhad gan yr Aelod sy'n gyfrifol – o ystyried y cychwynnwyd y Mesur i raddau cyfyngedig, a'r diwygiad diweddar mewn perthynas â chartrefi gofal i blant – fod y Rheoliadau Adeiladu bellach yn cwmpasu'r un materion ag yr oedd y Mesur, yn ymarferol, yn ymdrin â hwy. Dywedodd wrthym na fydd unrhyw fylchau, felly, yn cael eu creu yn ymarferol, drwy ddiddymu'r Mesur.¹⁷⁰

Diddymiadau arfaethedig nad ydynt yn cael eu cyflwyno gan y Bil fel y'i cyflwynwyd

Adrannau 53 i 56 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

178. Cynigiodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2022 ddiwygio adrannau 53 i 56 o *Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000* (“Deddf 2000”) i beidio â chymhwyso'r darpariaethau hynny i Gymru, mwyach. Yn ei dogfen ymgynghori, nododd fod y darpariaethau hyn yn pennu dyddiad terfyn (1 Ionawr 2026 i ddechrau, ond yn cael ei estyn yn ddiweddarach i 1 Ionawr 2031¹⁷¹) ar gyfer cofnodi llwybrau troed, a llwybrau ceffylau a grëwyd cyn 1949 ar fapiau diffiniol (gyda rhai eithriadau). Fodd bynnag, dywedodd hefyd nad oedd y darpariaethau hyn wedi eu cychwyn.¹⁷²

179. Mae'r Memorandwm, fodd bynnag, yn nodi nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaethau i ddiwygio adrannau 53 i 56 o Ddeddf 2000, ac mae'n nodi rhesymeg Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

¹⁶⁹ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 29 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 8, ail bwynt bwled

¹⁷⁰ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 29 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 8, trydydd bwynt bwled

¹⁷¹ Gweler [rheoliad 2 o Reoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 \(Amnewid Dyddiad Cau Yn Ymwneud â Hawliau Tramwy\) \(Lloegr\) 2023](#).

¹⁷² Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad: Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru), paragraffau 103 i 108

“Cynigiwyd hyn yn wreiddiol gan nad oedd yr adrannau hynny erioed wedi eu cychwyn (yng Nghymru neu Loegr), ac adeg yr ymgynghoriad polisi datganedig Llywodraeth y DU oedd diddymu'r adrannau hynny. Roedd gan Lywodraeth Cymru'r un polisi.

Ym mis Mawrth 2023 cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn sydyn newid yn ei safbwynt ac wedi hynny fe gychwynnodd adrannau 53 i 56 o Ddeddf 2000 mewn perthynas â Lloegr. Er nad yw hyn yn effeithio ar safbwynt Llywodraeth Cymru na chaiff yr adrannau hynny eu cychwyn mewn perthynas â Chymru, cafodd effaith ar barhau i gynnwys yr adrannau hynny yn y Bil. Y rheswm dros hyn yw oherwydd na ellid arddangos y meini prawf ar gyfer cynnwys diddymiadau (nad ydynt o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd mwyach).”¹⁷³

180. Mewn gohebiaeth, esboniodd yr Aelod sy'n gyfrifol benderfyniad Llywodraeth Cymru ymhellach i ni, fel a ganlyn:

“... y prawf a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer cynnwys diddymiad yn y Bil, fodd bynnag, yw fod y mater yn addas i'w gynnwys gan nad yw'r darpariaethau o ddefnydd na budd ymarferol mwyach. Gallai rhywbeth berthyn i'r categori hwn os yw:

(a) yn ddarfodedig, wedi ei ddisbyddu neu wedi ei ddisodli;

(b) yn annhebygol o gael ei gychwyn, gan nad yw wedi ei gychwyn am gyfnod a bod y cyd-destun gwreiddiol wedi newid; neu

(c) fel arall yn ddiangen (er enghraifft, pan fo'r bwriad yn cael ei gyflawni drwy ddull arall).

Felly er nad yw adrannau 53 i 56 o ddarpariaethau Deddf 2000 wedi eu cychwyn, mae'r cyfle i gychwyn a chyflwyno dyddiad terfyn yn parhau. Mae dewis polisi ar gael felly o ran eu cychwyn ai peidio. Fe wnaethom ymgynghori ar y Bil drafft ar sail hynny.

Mae penderfyniad Llywodraeth y DU yn golygu ei bod yn ymddangos bod rhywfaint o ddefnydd ymarferol i'r

¹⁷³ Y Memorandwm, paragraffau 60 a 61

darpariaethau o ran Lloegr. At hynny, ar hyn o bryd o leiaf, ni ellid eu diddymu drwy Fil Diddymu sy'n gweithredu mewn perthynas â Lloegr.

Rwy'n pwysleisio mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw na ddylid cychwyn yr adrannau hyn o ran Cymru. Ond o ran y prawf a osodwyd i ni ein hunain ar gyfer cynnwys materion yn y Bil, nid oes dadl gref mwyach bod y darpariaethau wedi eu disbyddu, eu bod yn annhebygol o gael eu cychwyn am nad yw'r cyddestun gwreiddiol wedi newid, neu eu bod fel arall yn ddiangen.

O ystyried ein bwriad i gynnal rhaglen barhaus o Filiau diddymu, a natur yr ymgynghori sydd eisoes wedi digwydd ar y mater hwn, roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig aros o fewn y ffiniau yr ydym wedi eu gosod i ni ein hunain. Mae'n werth pwysleisio mai dyma'r ffiniau sydd wedi llywodraethu'r amryw o filiau diddymu (a luniwyd gan Gomisiwn y Gyfraith) sydd wedi mynd drwy Senedd y DU yn y gorffennol.

Mae ychwanegu "yn Lloegr" yn un ffordd (a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r Bil, fel y dywedwch) i "ddiddymu" darpariaethau o ran Cymru; fe'i defnyddir pan fo angen gadael y darpariaethau dan sylw yn eu lle o ran Lloegr ac felly na ellir eu diddymu drwy eu hepgor o'r Ddeddf sy'n eu cynnwys, neu drwy ddiddymu'r Ddeddf gyfan. Mae'r rhesymau pam nad ydym wedi gwneud hynny yma wedi eu nodi uchod."¹⁷⁴

181. Fe wnaeth y Gymdeithas Mannau Agored, a groesawodd gynigion cychwynol Llywodraeth Cymru i ddiddymu adrannau 53 i 56 o Ddeddf 2000¹⁷⁵, ddatgan ei bod yn anghymeradwyo'n fawr hepgor y ddarpariaeth hon yn y Bil, ac roedd o'r farn bod yr hepgoriad yn anesboniadwy ac yn frawychus.¹⁷⁶ Ym marn y Gymdeithas honno, roedd yr hepgoriad yn anesboniadwy oherwydd nad yw darpariaethau eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Bil o reidrwydd wedi'u disbyddu

¹⁷⁴ Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 29 Tachwedd 2024, ymateb i gwestiwn 9

¹⁷⁵ Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad: Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru), [Y Gymdeithas Mannau Agored](#), Ionawr 2023

¹⁷⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Ymgynghoriad: Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), [L\(PPR\)03 - Y Gymdeithas Mannau Agored](#), cyhoeddwyd Rhagfyr 2024, diwygiedig Ionawr 2025, paragraff 2.3

mewn perthynas â'u cymhwysiad i Loegr¹⁷⁷; ac roedd yn ei chael yn frawychus oherwydd ei bod yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru, bellach, yn ystyried gwrthdroi polisi yn yr un modd â Llywodraeth y DU¹⁷⁸.

182. Ym mis Rhagfyr 2024, fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i ddiddymu dyddiad cau 2031 ar gyfer y darpariaethau hyn yn eu cyfanrwydd, pan fydd amser seneddol yn caniatáu.¹⁷⁹ Mewn fersiwn ddiwygiedig o'i chyflwyniad i'r Pwyllgor, dywedodd y Gymdeithas Mannau Agored fod y cyhoeddiad hwn yn dileu unrhyw wrthwynebiad posibl i'r ddarpariaeth diddymu gael ei hailosod yn y Bil, gan fynegi ei dymuniad a'i disgwyliad i'r cam hwnnw gael ei gymryd.¹⁸⁰

183. Pan ofynnwyd iddi roi sylw i'r pwyntiau a godwyd gan y Gymdeithas Mannau Agored, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"This Bill has a number of repeals attached to it, and the repeals are being repealed because the statutory provision that is being repealed has no further use, basically. So, if you take the building regulations one, for example, the sprinkler one that Ann Jones took through, that has been entirely superseded by the new building control regulations, so there's no need for it. It has served its purpose ... The countryside access one is slightly different to that. It's a provision that has never been commenced in Wales, and it would put a date by which you had to claim historic footpath rights into law. That's never been commenced in Wales ...

For a long time, it wasn't implemented either in England or Wales. We have absolutely no intention of ever implementing it, but that's clearly a policy decision. It's the policy of this Government that that will never be implemented. In fact, the UK Government then did implement it and extended the provision out a bit, but then the current UK Government now intends to repeal it altogether, because it had been

¹⁷⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Ymgynghoriad: Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), L(PPR)03 – Y Gymdeithas Mannau Agored, cyhoeddwyd Rhagfyr 2024, diwygiedig Ionawr 2025, paragraff 2.4

¹⁷⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Ymgynghoriad: Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), L(PPR)03 – Y Gymdeithas Mannau Agored, cyhoeddwyd Rhagfyr 2024, diwygiedig Ionawr 2025, paragraff 2.6

¹⁷⁹ Llywodraeth y DU, [Datganiad i'r wasg: Government steps in to save historic rights of way from being lost to the nation](#), 26 Rhagfyr 2024

¹⁸⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Ymgynghoriad: Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), L(PPR)03 – Y Gymdeithas Mannau Agored, cyhoeddwyd Rhagfyr 2024, diwygiedig Ionawr 2025, paragraffau 2.10 a 2.11

*implemented. So, the dilemma for us is we have no intention of ever commencing it, but it's not strictly speaking redundant in the sense that it's not inconceivable that a future Government might want to implement it, though I'd be very keen from a policy point of view that that didn't happen. So, I guess we've set ourselves the test for repeals that the repeal put forward by these proposals should be because there is no point at all to the statutory provision, that it merely misleads or causes confusion, whereas that's not quite the case with this. However, having said all of that, if the committee doesn't object, I'm minded to put it back in again, because, actually we have no intention whatsoever of ever commencing it. But I would want the committee not to object to that, because strictly speaking it's not quite within the parameters that we set for ourselves."*¹⁸¹

Adran 28 o Ddeddf Tiroedd Comin 1876

184. Gwnaeth y Gymdeithas Mannau Agored ein cyfeirio hefyd at gynnig a gyflwynwyd ganddi i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2022, a oedd yn galw am ddiddymu adran 28 o *Ddeddf Tiroedd Comin 1876* o ran Cymru. Mae Adran 28 o Ddeddf 1876 yn gofyn am adroddiadau bob tair blynedd i bob pum mlynedd gan reolwyr meysydd hamdden penodedig, ac - yn ôl y Gymdeithas Mannau Agored - mae'n ddarpariaeth ddiangen. Dywedodd wrthym mewn perthynas â'i gynnig:

"While the proposal is hardly pressing or important, it would fulfil the remit of the original Bill to remove 'unnecessary provisions from the statute book [which] can help to "declutter" it [and] helps to bring clarity about what law is relevant to Wales.'

*Moreover, as the original consultation expressly asked whether 'there are any other provisions we should consider including in this or a future Bill', and the OSS's proposal was the only one put forward, it seems unreasonable that the proposal has been ignored. If the intention was to include it in a subsequent repeals Bill, the Welsh Government could have said so."*¹⁸²

¹⁸¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [39] a [43]

¹⁸² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Ymgynghoriad: Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), L(PPR)03 - Y Gymdeithas Mannau Agored, cyhoeddwyd Rhagfyr 2024, diwygiedig Ionawr 2025, paragraffau 3.2 i 3.3

185. Gwnaethom ofyn, felly, i'r Aelod sy'n gyfrifol esbonio pam na chafodd y cynnig hwn ei ddwyn ymlaen gan Lywodraeth Cymru yn y Bil. Dywedodd:

"The truth is ... we haven't had quite enough time to be absolutely certain that the provision is completely overtaken by subsequent legislation. ... We'd very much hope to include it in a future repeal Act, but we haven't yet had the time to fully make sure that it fits into the category of 'has absolutely no legislative use whatsoever because it's superseded by other legislative purposes.'"¹⁸³

Ein barn ni

186. Rydym yn nodi'r profion y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod iddi'i hun ar gyfer cynnwys darpariaethau diddymu yn y Bil hwn: sef bod y darpariaethau hynny naill ai'n ddarfodedig, wedi'u disbyddu neu wedi'u disodli; yn annhebygol o gael eu cychwyn, ar ôl aros heb eu cychwyn am gyfnod o amser pan fo'r cyddestun gwreiddiol wedi newid; neu fel arall yn ddiangen. Rydym yn fodlon bod y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn bodloni'r profion hyn.

187. At hynny, rydym yn nodi penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnwys diddymu darpariaethau ar gyfraith cynllunio yn y Bil hwn, yn hytrach nag o fewn y naill Fil Cydgrynhoi neu'r llall a ragwelir ar gyfraith cynllunio.

188. Yn yr un modd, rydym yn nodi penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddiddymu Mesur 2011 yn ei gyfanrwydd, a'r rhesymau dros fabwysiadu'r dull hwn.

189. Er ein bod yn cydnabod y pryderon a godwyd gan y Gymdeithas Mannau Agored mewn perthynas â diddymu adrannau 53 i 56 o Ddeddf 2000, a gynigiwyd i ddechrau, nodwn mai bwriad Llywodraeth Cymru yn awr yw diwygio'r Bil i ailosod y ddarpariaeth diddymu hon, yng ngoleuni penderfyniad Llywodraeth y DU i ddiddymu'r ddarpariaeth yn Lloegr.

190. Yn yr un modd, rydym yn cydnabod cynnig y Gymdeithas Mannau Agored i ddiddymu adran 28 o Ddeddf 1876 o fewn y Bil, ac yn nodi gobaith Llywodraeth Cymru i'w chynnwys mewn Bil diddymu yn y dyfodol, yn amodol ar ei hystyriaeth bellach o'r ddarpariaeth ac a yw'n bodloni ei phroffion.

¹⁸³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [50]

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar [wefan y Bil](#).

Dyddiad	Enw a Sefydliad
4 Tachwedd 2024	<p>Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni Llywodraeth Cymru</p> <p>Dylan Hughes Llywodraeth Cymru</p> <p>Claire Fife Llywodraeth Cymru</p>
18 Tachwedd 2024	<p>Saul Nassé Yr Archifau Gwladol</p> <p>John Sheridan Yr Archifau Gwladol</p> <p>Malcolm Todd Yr Archifau Gwladol</p>
6 Ionawr 2025	<p>Dr Ruth Fox Cymdeithas Hansard</p> <p>Dr Adam Tucker Prifysgol Lerpwl</p>
13 Ionawr 2025	<p>Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni Llywodraeth Cymru</p> <p>Dylan Hughes Llywodraeth Cymru</p> <p>Claire Fife Llywodraeth Cymru</p>

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r Ymgynghoriad, gohebiaeth a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Bil.

Cyfeirnod	Sefydliad
L(PPR)01	Yr Archifau Gwladol
L(PPR)02	Un Llais Cymru
L(PPR)03	Y Gymdeithas Mannau Agored
L(PPR)04	Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd